Asesiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Rhiwabon



Mabwysiadwyd Rhagfyr 2010

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:

Pennaeth Datblygu a Lles Cymunedol
Gwasanaeth Cynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryt y Lampint
Wrecsam
LL11 1AR
Ffôn: 01978 292019
e-bost: planning@wrexham.gov.uk
www.wrexham.gov.uk/planning

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac ar ffurfiau gwahanol ar gais. Mae ar gael hefyd ar wefan y Cyngor

cynnwys

Rhan I - Asesiad Cymeriad

1.0 Cyflwyniad 1
2.0 Hanes a Datblygiad 3
3.0 Crynodeb o'r Cymeriad Arbennig 6
4.0 Manylu ar y Cymeriad 8
5.0 Crynodeb o Nodweddion Negyddol 20

Rhan II - Cynllun Rheoli

6.0 Cynllun Gwella 22
7.0 Canllaw Dylunio 24
8.0 Rheolaethau Ardal Gadwraeth 26
9.0 Ffynonellau Arian 28

Atodiad 1

Adeiladau Rhestredig 29

Atodiad 2

Canllaw Polisi Cadwraeth 30

Atodiad 3

Rhestr o Dermau 31

Ffigurau

Ffigwr 1 - Rhiwabon 1874 3
Ffigwr 2 - Terfynau Ardaloedd Nodwedd Ardal Gadwraeth Rhiwabon 6
Ffigwr 3 - Y Stryt Fawr 8
Ffigwr 4 - Eglwys y Santes Fair a Stryt yr Eglwys 10
Ffigwr 5 - Stryt y Parc 13
Ffigwr 6 - Tan y Lan a Rhes y Padog 14
Ffigwr 7 - Gorsaf Rhiwabon a Rhes y Rheilffordd 16
Ffigwr 8 - Pont Adam a Bryn Hyfryd 17
Ffigwr 9 - Teras Grenville 19

Llun o'r awyr Ardal Gadwraeth Rhiwabon

Rhan 1
Asesiad Cymeriad


Ardal Gadwraeth Rhiwabon
GOGLEDD
Ruabon
Rhiwabon
Station
Brynfields
Council Offices
Police Houses
Garden of Rest
Mount House
Tile Walks
Tile Bridge End (PH)
The Vaults PH
Wynnstay Arms Hotel
Wynnstay Court
Ruabon Bridge
Hall
Telephone Exchange
Francis Court
Greenville Terrace
Highfield
Hillbrie
Campana
Jalna
Millbrook
Sunday School
Mount Pleasant
Lodge
Bridgend Cottages
Plas Newydd
Brookside
Bowling Green
Tennis Courts
School House
Ysgol Maes-y-Llan
Play Area
St Marys C in W School (Aided)
Recreation Ground
Community Centre
Willow Cottage
The Gate House
Car Park
Clinic
Library
Surgery
Bank
Post
Pond
Mast
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded 100023429 2010

1 Cyflwyniad

Dynodi Ardal Gadwraeth

1.1 Mae Adran 69 o Ddeddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol nodi "ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n dymuno cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad" i'w dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth.

Pwrpas

1.2 Pwrpas y Cynllun Rheoli ac Asesu Ardal Gadwraeth yw:

- Darparu diffiniad clir o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ardal
- Nodi ffyrdd y gellid cadw eu nodweddion unigryw a'u gwella drwy'r Cynllun Gwella
- Cryfhau'r cyfiawnhad dros ddynodi
- Creu cyd-destun clir ar gyfer datblygiadau'r dyfodol yn unol â pholisïau ardal gadwraeth yn y cynllun datblygu
- Darparu ffordd o gynnwys pobl a chodi ymwybyddiaeth

Ardal Gadwraeth Rhiwabon

1.3 Nod y Cynllun Rheoli ac Asesu hwn yw hyrwyddo a chefnogi'r datblygiadau sy'n cyd-fynd neu'n gwella, cymeriad Ardal Gadwraeth Rhiwabon. Nid yw'n ymgais i atal newid. Y nod yw cael cydbwysedd fel y bydd buddiannau cadwraeth yn cael eu hystyried yn llawn yn erbyn yr angen i newid a datblygu. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Rhiwabon am y tro cyntaf ym mis Awst 1975 a newidiwyd ei ffiniau ym mis Chwefror 1998 ac ym mis Rhagfyr 2010. Cyhoeddwyd y cynigion gwella ym 1988. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r rhesymau dros ei dynodi, diffinio'r ansawdd sy'n llunio'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig, ei chymeriad a'i golwg. Ni ddylid ystyried bod eithrio unrhyw gyfeiriad at adeilad, nodwedd neu le arbennig yn awgrymu nad yw o ddiddordeb.

Y Cyd-destun Cynllunio

1.4 Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd gyda Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam 2005, a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, yn enwedig Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.

Lleoliad

1.5 Mae Ardal Gadwraeth Rhiwabon yn cynnwys calon y pentref, sydd tua 6 milltir i'r de o Wrecsam. Mae Mynydd Rhiwabon yn codi i'r gorllewin a'r Afon Eitha yn rhedeg yn syth drwy ganol y pentref. Canolbwynt yr Ardal Gadwraeth yw Eglwys y Santes Fair sy'n adeilad Rhestredig Gradd 1. Mae dylanwadau Stad Wynnstay amlwg yn ogystal â diwydiannau lleol wedi eu harddangos yn yr arddulliau pensaernïol amrywiol sydd i'w gweld yn natblygiad y pentref.

Daeareg

1.6 Prif garreg adeiladu'r ardal yw tywodfaen, carbonifferaidd o raean mân, a honno wedi ei chloddio o'r haenau glo canol. Mae tuedd i'r garreg hon o Cefn, dduo'n hawdd. Mae'r fricsen leol a'r teracotta wedi eu cynhyrchu o glai tân a marl teracotta a ddaeth o'r

haenau glo uchaf, tra ceir haearn craidd yn yr haenau dyfnach. Mae amrywiaeth y deunyddiau adeiladu lleol sydd ar gael wedi creu treflun cyfoethog ac amrywiol.

Ymgynghori

1.7 Ymgynghorwyd gyda Chynghorau Cymuned, aelodau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ac amrediad o sefydliadau a grwpiau oedd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol a'r ardal leol, ynglŷn â'r ddogfen hon. Ymgynghorwyd hefyd gyda chyrff statudol megis Cadw. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Ebrill, Mai, Medi a Hydref 2010. Mabwysiadwyd Cynllun Rheoli ac Asesu Cymeriad Ardal Gadwraeth Rhiwabon gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor ar 14eg Rhagfyr 2010.





Ffigwr 1: Rhiwabon 1874

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded 100023429. 2010

2 Hanes a Datblygiad

Yr Oes Efydd

2.1 Mae'r dystiolaeth gynharaf am gysgodfeydd yn yr ardal yn dyddio nôl cyn belled â 1400CC. Mae darganfyddiadau arwyddocaol o'r Oes Efydd yn cynnwys cawg neu gist garreg yn cynnwys gweddillion a amlosgwyd yn Stryd Cleveland a 'chasgen gron' neu 'garn' y daethpwyd o hyd iddi ar dir Ysgol Ramadeg Rhiwabon. Carn yw'r bedd ar ei ben ei hun ar gyfer aelodau pwysig llwyth, y pennaeth neu'r offeiriad fel arfer. Pan ddarganfuwyd ef, roedd y carn yn cynnwys esgyrn dynol, pen saeth a bwyell efydd.

Oes yr Haearn

2.2 Ar gopa isel i'r Gogledd o ganol y dref heddiw, y mae Bryngaer y Gardden, sy'n dyddio i tua 400CC. Mae'n cynnwys rhagfur carreg mewnol, ail ragfur o bridd a thrydydd boncyn mwy gwasgaredig i'r de ac i'r dwyrain o'r twmpath, ac mae'r gweddillion yma'n amgylchynu ardal o tua 4 acer. Credir fod rhai'n trigo yn yr aneddiad hyd at ymosodiad y Rhufeiniaid tua 55OC.

5ed - 8fed Ganrif OC

2.3 Mae gweddillion y gwaith hynafol yn y ddaear yng Nghlawdd Offa a Chlawdd Wat yn cydredeg ar hyd llinell o'r gogledd i'r de ar hyd y pentref, a dyma sy'n dynodi ei ffiniau cynnar. Credir i Glawdd Wat gael ei adeiladu gan yr Eingl Sacsoniaid yn y 5ed Ganrif OC yn fur rhwng y tir yr oeddent wedi ei oresgyn a'r tir i'r gorllewin o dan reolaeth y Cymry. Y Brenin Offa o Fersia a adeiladodd Glawdd Offa yn yr 8fed Ganrif OC. Mae anghytuno ynglŷn â diben y Clawdd. Mae'n bosibl mai amddiffyn oedd ei ddiben neu i fod yn ffin rhwng Teyrnas y Sacson a'r Cymry.

Eglwys y Santes Fair

2.4 Mae Eglwys y Santes Fair wedi ei lleoli yn y canol rhwng y ddau Glawdd ac yng nghalon y pentref heddiw. Mae cofnodion trethu o 1254 yn nodi bod Eglwys yn Rhiwabon wedi ei neilltuo i Sant Collen, a gallai ei sylfaeni fod yn dyddio nôl i'r 7fed Ganrif. Mae'r fynwent, sydd bron yn gylch perffaith, yn awgrymu presenoldeb llan ganoloesol cynnar. Erbyn diwedd y 13eg Ganrif, roedd yr Eglwys wedi ei meddiannu gan Abaty Sistersaidd Glyn y Groes ac wedi ei ail-neilltuo i'r Forwyn Fair Fendigaid. Cyn hyn roedd yr Eglwys wedi ei neilltuo i Sant Mabon, sant lleol. Mae'r enw Rhiwabon yn deillio o'r ddau air 'Rhiw' a 'Mabon' sef Allt Mabon.'

2.5 Mae tŵr gorllewinol yr Eglwys Restredig Gradd I yn dyddio o'r 14eg Ganrif. Y tu mewn i'r wal ddeheuol,

mae paentiad yn dyddio i ddechrau'r 15fed Ganrif ac mae'n fwy na 15 troedfedd o hyd. Mae capel y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain yn dyddio i ddiwedd y 18fed Ganrif, tra mae canol yr eglwys, y llofft olau, yr ystlysau a mwyafrif y ffenestri yn deillio o waith ailfodelu ym 1870-2 gan y pensaer Benjamin Ferrey. Mae'r Eglwys wedi ei lleoli ar godiad tir ac mae golygfa oddi yno tua'r pentref o bob cyfeiriad.

Y Canol Oesoedd

2.6 Wedi ymosodiad y Normaniaid ym 1066, bu'n rhaid i'r Cymry eu hamddiffyn eu hunain yn erbyn ymosodiad y Saeson, gan yrru preswylwyr Saesnig yn eu holau ar draws yr afon Ddyfrdwy. Roedd Rhiwabon yn rhan o deyrnas Powys yn Bromfield. Yr adeg honno y sefydlwyd plwyfi eglwysi, ac fe'i diffiniwyd gan griw o drefgorddau. Roedd y trefgorddau'n cael eu cynnal ar sail system amaethu gymunedol, yn cynnwys nifer o dyddynod a thir pori a dolydd cymunedol. Yn ystod 1282, trechwyd Cymru a daeth rhan o Deyrnas Powys Fadog yn Arglwyddiaeth y Mers. Roedd deddfau Cymru a Lloegr yn bodoli ochr yn ochr yn gymharol heddychlon yn Rhiwabon.

2.7 O dan Ddeddf Uno 1536, rheolai Hari VIII Gymru gyfan oherwydd ei bryderon ynglŷn â theyrngarwch Arglwyddi'r Mers yn dilyn ei dorri o'r Eglwys Gatholig. O dan delerau'r deddfau newydd, cafodd Cymru ganiatâd i gael ei chynrychioli yn y Senedd a gallai gwŷr bonheddig Cymru gaffael stadau tir.

2.8 Yn fwyaf nodedig, yr oedd cartrefi bonedd Watstay (sydd bellach yn safle Neuadd Wynnstay Gradd II*) a Phlas Newydd, adeilad rhestredig Gradd II* ym Mhont Adam. Adeiladwyd Plas Newydd tua dechrau i ganol yr 16eg Ganrif, ac mae'n dŷ ffrâm bren fawr sy'n cynnwys neuadd a llwybr rhwng dwy adain â lloriau. Mae'r neuadd yn cynnwys 4 bae ac ynddi, ceir trawstiau sffêr sy'n anarferol o brin. Y teulu Eyton a adeiladodd y ddau eiddo. Mae beddrod John ap Elis Eyton a'i wraig Elizabeth Calverley i'w gweld yn eglwys Rhiwabon. Daeth John ap Elis Eyton i ennill ffafr Harri VII pan frwydrodd gyda'i lu yng nghae Bosworth.

Y Cyfnod Cyn Ddiwydiannol

2.9 I'r de o'r pentref, mae porth Stryd y Parc yn nodi safle hen fynedfa'r rhodfa hir goediog oedd yn arfer arwain at y Neuadd, ond mae'r A483 bellach yn torri ar ei thraws. Mae adeilad rhestredig Gradd II* Neuadd Wynnstay a sawl adeilad a strwythur diddorol arall a berthyn i'r stad yn parhau o fewn y parc helaeth oedd unwaith yn gartref i'r teulu mwyaf amlwg, cyfoethog a lletygar yng Ngogledd Cymru yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif, y Williams-Wyniaid.

2.10 Ei henw gwreiddiol oedd Stad Rhiwabon, yna Watstay (oherwydd bod y Clawdd yn mynd trwy'r stad), ac yna fe'i hail enwyd yn Wynnstay gan Syr John Wynn yng nghanol y 17eg Ganrif. Roedd y Neuadd yn arddull y cyfnod Jacobeaidd, ac wedi ei hymestyn ym 1736-8 yn yr arddull neo-glasurol ond fe'i dinistriwyd gan dân ym 1858. Yr unig beth sy'n weddill o'r adeilad hwn yw Twr y Tlws (tua 1706). Adeiladwyd y ffurf sy'n bodoli heddiw yn arddull cyfnod y Dadeni Ffrengig gyda chynlluniau gan Benjamin Ferrey.

2.11 Gwnaeth teulu Williams-Wynn gyfraniad sylweddol i'r gymuned leol ac roeddent yn gyfrifol am gymaint o'r strwythurau allweddol sydd mor amlwg yn yr Ardal Gadwraeth heddiw, yn enwedig Gwesty'r Wynnstay a bythynnod gweithwyr y stad ar hyd Stryt y Parc. Mae cofeb neu ddodrefnyn yn Eglwys y Santes Fair i goffau pob cenhedlaeth ddilynol o deulu Williams-Wynn.

2.12 Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, defnyddiwyd y stad fel ffatri arfau ac fe'i defnyddiwyd gan y fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Gyda marwolaeth sydyn yr 8fed Farwn ym 1949, daeth diwedd ar hanes 230 mlynedd y teulu yn Wynnstay. Gwerthwyd y Neuadd i Goleg Lindisfarne ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi ei rhannu'n aneddiadau preifat.

Yr Oes Diwydiannol

2.13 Mae cofnod o weithgarwch diwydiannol ym Mhlwyf Rhiwabon sy'n dyddio nôl i'r Oesoedd Canol, yn enwedig y diwydiant haearn yng Ngyfelia. Yn y pentref ei hun, roedd gweithgarwch diwydiannol cynnar wedi ei leoli yn ardaloedd Tan-y-Llan a Phlas Newydd gerllaw, ble defnyddid grym yr Afon Eitha i yrru'r melinau gwlân a grawn. Mae mapiau hanesyddol yn cofnodi nifer o adeiladau wedi eu crynhoi yn y ddwy ardal yma gan awgrymu bod datblygiad cynnar y pentref wedi ei ganoli o amgylch y diwydiannau hyn. Parhaodd y pentref i dyfu yn yr ardal o amgylch yr eglwys ac i'r de ddwyrain gydag adeiladu'r Wynnstay Arms (neu'r Eagles) ym 1740 a bythynnod gweithwyr y stad ar Stryt y Parc.

2.14 Yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif, daeth nifer o ddiwydiannau trwm i'r ardal gyfagos. O fewn Plwyf Rhiwabon, roedd y diwydiant haearn yn ffynnu, yn enwedig ym Mhlas Madog, Plas Benion ac Acrefair.

Cloddiwyd sawl pwll glo gan gynnwys Y Green i'r de orllewin o'r pentref, Plas Bennion, Plas Madog a Gardden. Pan gafodd y rhain, ynghyd â sawl un arall, eu gorlifo ym 1846, agorwyd pyllau glo'r Wynnstay, Vauxhall a'r Hafod. Yr Hafod (Glofa Newydd Rhiwabon) oedd yr olaf i gau ym 1968.

2.15 Roedd Rhiwabon yn fyd-enwog am weithgynhyrchu briciau a theracotta a cheir tystiolaeth ohonynt drwy'r pentref a'r ardaloedd o amgylch mewn gwaith briciau a nodweddion addurniadol megis llin-gyrsiau, terfyniadau, ysgwyddau a ffrisiau ac fe gyflawnwyd hyn drwy elwa ar ddyddodion cyfoethog clai marl coch Rhiwabon. Roedd y gweithfeydd briciau mwyaf amlwg yn yr ardal yn cynnwys Briciau a Theracotta Rhiwabon, J.C. Edwards a chwmni Briciau'r Hafod.

2.16 Roedd llwyddiant y diwydiannau hyn yn dibynnu ar gysylltiadau trafnidiaeth da ac yn defnyddio'r camlesi a'r tramffyrdd yn bennaf ac yna'r rheilffordd. Cynlluniwyd Gorsaf Rhiwabon gan Thomas Penson o Amwythig ac agorodd gyntaf ym 1846 (yn ddiweddarach ym 1860). Maes glo Rhiwabon-Wrecsam oedd y cyntaf i gael rhwydwaith rheilffordd oedd hefyd yn darparu gwasanaeth teithwyr a nwyddau i ogledd-orllewin Lloegr, y Canolbarth ac Amwythig. Arweiniodd hyn at dwf pellach y pentref er na ddigwyddodd yr ehangu mawr hyd 1888 pan adeiladwyd Tai Clawdd gan deulu Yorke o Erddig, a pharhaodd yr ehangu i'r gogledd ddwyrain drwy ddatblygu mwy ar y Stryt Fawr gan ddyblu maint canol y pentref gwreiddiol. Heddiw, mae cysylltiadau rheilffordd da a mynediad at yr A483 yn gwneud Rhiwabon yn bentref cymudo da.



Ffigwr 2: Ardaloedd Nodwedd Ardal Gadwraeth Rhiwabon

3 Crynodeb o'r Cymeriad Arbennig

3.1 Mae cymeriad arbennig Ardal Gadwraeth Rhiwabon yn deillio o'r canlynol:

Waliau Terfyn Tywodfaen

3.2 Waliau tywodfaen yw'r ffurf fwyaf amlwg o drin terfynau o fewn yr Ardal Gadwraeth. Maen nhw'n amrywio yn eu huchder ac yn dangos amrywiaeth o arddulliau capio, gan gynnwys meini copa gwastad, 'dafad ac oen' a meini copa pyramid. O fewn y Stryt Fawr a Stryt yr Eglwys, gwelir plinthiau cerrig isel neu waliau corrach gyda rheiliau haearn ar eu pen, yn diffinio ffiniau eiddo mwyaf mawreddog yr ardal. Mae'r waliau cerrig yn nodweddion cymeriad pwysig yn yr ardal ac maen nhw'n fodd o amgau a dynodi statws, ond maent hefyd yn rhoi parhad i wyneb y stryd. Fe'i hadeiladwyd o'r deunydd adeiladu lleol pennaf, ac maent yn cydlynu popeth o fewn yr Ardal Gadwraeth.

Deunyddiau Lleol a Manylion Cynhenid

3.3 Y defnydd adeiladu mwyaf amlwg yw carreg Cefn ond mae briciau llyfn Rhiwabon a'r terracotta lleol hefyd yn amlwg iawn. Y duedd yw i adeiladau fod wedi eu codi gyda cherrig amrywiol a nifer ohonynt wedi eu haddurno gyda chonglfeini cerrig, pennau a sil ffenestri. tywodfaen Y deunydd toi cyffredin yw llechi a tho â thalcen sydd gan y mwyafrif. Mae tystiolaeth o amrywiaeth o gyfnodau ac arddulliau adeiladu yn amrywio o eiddo Sioraidd tri llawr, bythynnod carreg ac eiddo teras, yn dyddio o ddechrau i ganol y 19eg ganrif ac yn ddiweddarach terasau briciau coch o ddiwedd y 19eg a dechrau'r 20fed Ganrif. Mae'r gymysgedd o ddeunyddiau ac arddulliau adeiladu yn creu treflun diddorol ac amrywiol.

Eiddo Teras a Gerddi Blaen

3.4 Mae eiddo teras o wahanol gyfnodau yn fath cyffredin o adeilad drwy'r Ardal Gadwraeth. Adeiladwyd nifer ohonynt gan Syr Watkins Williams-Wynn yn gartrefi i weithwyr y stad. Mae'r arddull yma o adeilad yn creu llinell adeiladu gryf a pharhaus. Nodwedd arbennig yw bod gan nifer o'r bythynnod yma, yn enwedig y rheiny yn Rhes y Padog, Teras Grenville a Bryn Hyfryd erddi hir yn ymestyn o'u blaenau gan greu golygfa fwy deniadol o'r stryd.

Topograffeg a'r Afon Eitha

3.5 Mae'r pentref yn codi o lannau'r afon Eitha sy'n llifo drwy ardaloedd isel Tan-y-Llan a Phont Adam i fyny at Eglwys y Santes Fair a'i safle uwchben calon y

pentref. Mae'r dopograffeg yn pwysleisio ymddangosiad y pentref fel pe bai ar risiau gan ddatgelu amrywiol haenau o gamau ei ddatblygiad hanesyddol.

Cyfraniad Coed a Llefydd Gwyrdd

3.6 Ar eu pen eu hunain a gyda'i gilydd, y mae coed yn gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, gan greu cefndir deniadol i'r pentref a fframio a chyfrannu at leoliad yr adeiladau. Mae llwyni, gerddi o laswellt a llefydd gwyrdd drwy'r Ardal Gadwraeth, i'w croesawu o fewn y tirlun trefol. Gwelir y llefydd agored mwyaf arwyddocaol o fewn Mynwent Eglwys y Santes Fair ac yn yr Ardd Orffwys ar Stryd yr Eglwys.

Dylanwad Stad Wynnstay

3.7 Mae dylanwad Stad Wynnstay sydd gerllaw i'w weld drwy'r Ardal Gadwraeth. Mae bythynnod teras y gweithwyr, Gwesty amlwg y Wynnstay Arms, Porth y Stad o Stryt y Parc yn ogystal â'r cofebion a'r addurniadau yn yr eglwys yn ein hatgoffa o'r rôl bwysig y bu i'r stad ei chwarae yn natblygiad y pentref drwy'r canrifoedd.

Adeiladau o Bwys

3.8 Mae sawl adeilad o bwys yn y pentref a'r rhan fwyaf wedi eu lleoli o gwmpas cyffordd Stryt yr Eglwys, y Stryt Fawr a Stryt y Parc, man cyfarfod pwysig yn y pentref, ble gellir gwerthfawrogi ansawdd ac edrychiad yr adeiladau hyn yn llawn. Mae sawl un yn adeilad rhestredig gan gynnwys Eglwys y Santes Fair, y Wynnstay Arms, Mary's Salon a'r Round House. Mae rhifau 1-4 Cowrt Wynnstay, 1-11 Stryt Fawr ac Eglwys Gynullaidfaol Stryd yr Allt, yn adeiladau nodedig eraill o fewn yr Ardal Gadwraeth.





4 Manylu ar y Cymeriad

4.1 Gellir rhannu'r Ardal Gadwraeth yn 6 ardal gymeriad penodol fel y'u disgrifir isod:

Y Stryt Fawr

4.2 Nodweddion yr ardal hon yw cyfuniad o adeiladau 2 a 3 llawr sy'n creu grwpiau treflun nodedig o fewn yr olygfa stryd. Mae amrywiaeth o arddulliau a chyfnodau adeiladu i'w gweld, ac mae adeiladau 3 llawr Sioraidd yn amlwg ar ochr orllewinol y stryd, gyda'r ochr ddwyreiniol yn cynnwys eiddo o oes Fictoria gyda bythynnod tywodfaen o'r 19eg ganrif yn eu mysg. Mae sawl adeilad wedi ei osod gam yn ôl o'r stryd y tu ôl i'w derfynau ei hun gan roi rhyw statws i'r adeiladau ar y stryd hon.

4.3 Mae cyfres o dalcenni a therfyniadau serth yn amlwg ar y Stryt Fawr, gan greu siâp nodweddiadol y toeau yn rhes Tai Clawdd. Fe'u hadeiladwyd ym 1888 gan y teulu Yorke o Erddig, a dyma un o'r datblygiadau cynharaf yn ehangiad y pentref yn y 19eg ganrif. Mae'r rhes yn creu wyneb cryf i'r stryd, gyda'r talcenni cyson yn rhoi patrwm i olwg y stryd. Mae cyfanswm o 10 eiddo briciau coch yn y rhes, gan gynnwys cynteddau ffrâm goed wedi eu cyplu'n gymesur ac, ar lefel y to, talcenigau canolog wedi eu huno o bopty gan dalcenigau eraill llai. Mae rhai o'r cynteddau wedi eu llenwi mewn. Ond, gellir gweld bwriad gwreiddiol y cynllun, yn enwedig yn rhif 2, 7 a 10 lle mae'r holl waith coed gwreiddiol, gan gynnwys ffenestri a drysau wedi eu cadw.

4.4 Er bod y rhan fwyaf o'r drysau a'r ffenestri gwreiddiol wedi mynd, mae'r adeiladau'n dal i ddangos ansawdd penodol yn eu defnyddiau a'u manylion, yn enwedig, y pen a'r sil ffenestri cerrig, cyrn simnai briciau corbel tal, byrddau a therfyniadau, llin-gwrs a manylion terfyn terracotta. Mae gerddi bychan o flaen Tai Clawdd a'r rheiny wedi eu hamgylchynu gyda waliau bychain gyda meini copa ar eu pen a rheiliau haearn trwm gyda therfyniadau pêl. Ceir mynediad at yr eiddo drwy byst giatiau helaeth o dywodfaen wedi eu cerfio a giatiau metel trymion sy'n arwain at lwybrau teils coch a du a grisiau cerrig. Er gwaetha peth mân addasu, mae cynllun gwreiddiol y rhes i'w weld yn amlwg ac mae'n ychwanegu cymeriad ac ansawdd at fynedfa'r Ardal Gadwraeth.

4.5 O Dai Clawdd, ceir golygfa o hen Ysbyty Ddamweiniau Rhiwabon, a adeiladwyd ym 1886 ond a gafodd ei dymchwel wedi hynny, ac mae bellach yn safle swyddfeydd y Cyngor, Clinig a Llyfrgell Rhiwabon o ddiwedd y 20fed Ganrif. Er bod rhai coed aeddfed a llefydd gwyrdd, mae'r parcio helaeth sy'n digwydd ar y safle a lleoliad y bloc toiledau yn union wrth ymyl y ffordd yn tynnu oddi wrth olwg hanesyddol yr ardal yn fawr. I'r gorllewin o'r safle, gwelir gweddillion wal derfyn gerrig.

4.6 Wrth barhau i ganol y pentref, yn dilyn Tai Clawdd, y mae rhifau 12 ac 13 ar y Stryt Fawr, pâr o fythynnod carreg sydd wedi eu lleoli ar y llwybr a chredir mai'r rhain oedd yr hen dollbyrth. Mae cyn Fanc Gogledd a De Cymru (sydd bellach yn Fanc yr HSBC) ar ochr chwith y ffordd. Mae'n adeilad o gryn ansawdd a statws a adeiladwyd o gwmpas yr un pryd â Thai Clawdd. Mae wedi ei osod gam yn ôl o'r ffordd y tu ôl i blinth carreg isel gyda rheiliau haearn cain. Mae'r adeilad wedi ei godi o friciau coch llyfn gyda tho slip llechi, corn briciau yn y canol ac addurniadau tywodfaen. Mae'n cynnwys 5 bae, gyda'r bae canol yn cynnwys cyntedd carreg mawreddog gyda phediment segment agored, bae wedi ei oleddu ar y llawr cyntaf a phediment gyda chopa i'r ail lawr. Mae'r adeilad wedi cadw ei waith coed gwreiddiol drwodd a thro, gyda fframiau uchel a ffenestri sash ar y llawr isaf a'r lloriau cyntaf.

4.7 Ar ochr arall y ffordd mae pâr o aneddiadau trawiadol o'r cyfnod Sioraidd, Bryn End. Mae ardal fechan gaeedig i'r tu blaen y tu ôl i reiliau haearn sy'n gwahanu'r adeilad oddi wrth y ffordd, yn rhoi arwydd clir o bwysigrwydd a statws uwch yr eiddo yn ystod cyfnodau cynharach. Mae'r adeilad wedi ei godi gyda briciau coch ac mae ganddo 3 llawr a ffenestri to gyda therfyniadau addurnedig wedi eu gosod yn y bondo. Mae'n debyg bod y rhain wedi eu hychwanegu'n ddiweddarach, a'u hadeiladu gyda briciau coch llyfn. Ar y llawr a'r lloriau cyntaf, mae pennau bwa fflat i'r ffenestri a sil ffenestri a phyrth carreg gyda phen hanner cylch. Mae pob ffenestr yn rhai traddodiadol gyda 12 panel a sash sy'n llithro ac mae'r eiddo sydd ar y chwith wedi cadw ei gyntedd gwreiddiol. Mae uchder yr adeilad a chysondeb y ffenestri to a'r ffenestri yn parhau i ychwanegu rhythm a phwyslais fertigol cryf i olwg y stryd gan greu grŵp trawiadol ac amlwg o fewn yr olygfa stryd. Mae oedran a gwreiddioldeb y ffasâd hwn yn gwneud yr adeilad hwn yn nodedig o fewn y pentref.

4.8 Mae'r adeilad cyfagos wedi ei addasu'n helaeth; yn wreiddiol roedd ganddo dalcen blaen uchel wedi hanner ei goedio a bae yn ymestyn allan i'r llawr cyntaf, gan roi wyneb blaen arwyddocaol yn y stryd. Mae'r bae bellach wedi ei gyfnewid am un ffenestr lydan sy'n rhoi pwyslais llorweddol ac yn taflu'r cyfrannedd ac yn torri ar rythm yr olygfa stryd. Gerllaw y mae adeilad 2 lawr sy'n llawer is, gyda'r uchder cyferbyniol yn creu golygfa stryd llawer mwy diddorol. Mae'r ffenestri sash sy'n llithro wedi eu cadw ar loriau uchaf yr adeilad hwn ond mae'r wyneb siop gwreiddiol wedi mynd. Mae dyluniad ffasâd yr adeilad drws nesaf yn gwbl groes i gymeriad y rhai eraill yn yr Ardal Gadwraeth. Yn eironig, roedd hwn yn cymryd lle cyn Bencadlys Dennis Rhiwabon, adeilad addurnedig oedd yn dangos manylion teracotta addurniadol cain, a hynny'n hysbyseb i'r cynnyrch oedd ar gael o'r gwaith clai cyfagos. Yn anffodus, mae'r adeilad newydd wedi ei rendro ar lefel y llawr isaf gyda ffenestri bychain anghyson drwyddo. Nid yw perthynas wal solid i wagle yn llwyddo i barchu ansawdd y dylunio, y cymesureddau a'r patrwm sydd mor nodweddiadol o'r rhan hon o'r Stryt Fawr. Mae'r eiddo 2 lawr cyfagos yn arddangos nodweddion annymunol tebyg.

4.9 Mae'r grŵp olaf o adeiladau ar yr ochr hon i'r stryd, unwaith eto, yn deillio o'r cyfnod Sioraidd ac yn debyg o ran cyfrannedd i Fryn End. Mae 3 llawr iddynt o ran uchder gyda phennau briciau bwa segment a ffenestri casment aml-banel gan fwyaf gydag wyneb siopau ar lefel y llawr. Mae gan yr eiddo ar yr ochr dde ffenestr fae o'r 20fed ganrif ar y llawr cyntaf ac olion hen wyneb siop islaw. Mae uchder a swm yr eiddo yma ynghyd â Fflat Haven Gradd II rhestredig a'r Siop Barbwr Gradd I (oedd gynt yn Mary's Salon) yn ffurfio grŵp cryf ar y gornel, a gyferbyn, ceir Gwesty'r Wynnstay Arms, sy'n creu mynediad mawreddog i galon yr Ardal Gadwraeth, gydag Eglwys y Santes Fair yn ganolbwynt.



Ffigwr 2: Eglwys y Santes Fair a Stryt yr Eglwys

Eglwys y Santes Fair a Stryt yr Eglwys

4.10 Yr adeilad canolog, a'r pwysicaf, yn yr ardal hon yw Eglwys y Santes Fair, gyda'i safle uchel yng nghanol yr Ardal Gadwraeth. Mae'r ardal hon yn ffurfio craidd i ganol hanesyddol y pentref ac yn cynnwys nifer fawr o Adeiladau Rhestredig sydd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig. Mae mwyafrif yr adeiladau'n dyddio o'r 17eg a'r 18fed Ganrif a cheir amrywiaeth o fathau ac arddulliau, a thywodfaen Cefn yw'r deunydd adeiladu amlycaf.

4.11 Mae Eglwys y Santes Fair yn Adeilad Rhestredig Gradd I. Mae iddi wreiddiau yn yr oesoedd canol ond mae wedi ei newid yn helaeth. Fe'i hadeiladwyd gyda rwbel a cherrig nadd tywodfaen ac mae ganddi dŵr 4 llwyfan o'r 14eg Ganrif. Mae'r ffenestri'n dyddio o'r 19eg Ganrif yn bennaf ac mae arddull perpendicwar iddynt. Mae'r strwythur yn cynnwys ystlysau talcen a llofft olau gyda 5 bae yng nghorff yr eglwys. Y tu mewn, ceir paentiad o'r 15fed Ganrif ar y wal a nifer o ddodrefn a chofebion cain. Mae'r Fynwent wedi ei hamgylchynu gan wal garreg rwbel ac mae ynddi ddeial haul gradd II rhestredig a nifer o goed aeddfed. Mae'n ardal arwyddocaol a thawel gyda lle glas agored yng nghanol yr Ardal Gadwraeth sy'n rhoi cefndir naturiol i'r pentref ac yn harddu lleoliad sawl adeilad. Adeiladwyd porth y fynwent ar ôl y Rhyfel Mawr i gofio'r rhai a gollwyd. Mae'n agor i'r gyffordd gyda'r Stryt Fawr a Stryt yr Eglwys, man cyfarfod pwysig sydd wedi ei amgáu gan gyfuniad arwyddocaol o adeiladau pwysig yn cynnwys, yr Eglwys, Gwesty'r Wynnstay Arms a Mary's Salon a Chowrt Wynnstay.

4.12 Mae Mary's Salon yn Adeilad Rhestredig Gradd II a adeiladwyd yn wreiddiol fel tŷ ar ddiwedd y 18fed Ganrif oedd yn cynnwys adeilad cynharach ac fe'i newidiwyd yn siop trin gwallt yn yr 20fed Ganrif. Mae'n adeilad 3 llawr a adeiladwyd o friciau a rwbel tywodfaen, sef gweddillion gweladwy'r strwythur cynharach. Mae gan y tu sy'n wynebu'r Stryt Fawr, wyneb siop ar lefel y llawr, a hwnnw'n anffodus wedi ei gau â byrddau. Mae gan y tu sy'n wynebu Stryt yr Eglwys do slip a ffenestri sash sy'n llithro, ac mae'r drws ar yr ochr chwith yn ychwanegiad diweddar. Mae'r tu hwn wedi ei osod gam yn ôl, y tu ôl i wal garreg isel a rheiliau, gan bwysleisio ei bwysigrwydd unwaith eto.

4.13 Mae'r Wynnstay Arms yn adeilad helaeth ac amlwg iawn gydag un tu'n wynebu'r Stryt Fawr ac un arall yn wynebu Stryt y Parc. Mae'n adeilad gradd II rhestredig ac fe'i adeiladwyd i fod yn dafarn y goets fawr ar ddiwedd y 18fed Ganrif, a'i helaethu ym 1841. Mae 2 lawr ar y Stryt Fawr ond mae ganddo 3 llawr gan fwyaf. Mae ei uchder, ynghyd â'r bae wythonglog dwfn ar y tu sy'n wynebu Stryt y Parc, yn ffurfio adeilad nodedig. Mae wedi ei adeiladau gyda briciau ac addurniadau tywodfaen a ffenestri sash sy'n llithro. Wrth ddynesu o Stryt y Bont, mae mynedfa'r goets yn adeilad o bwys sy'n cau'r olygfa o'r cyfeiriad hwn nes y daw bae amlwg y Gwesty i'r golwg wrth i'r ffordd godi a throi. Mae mynedfa'r goets i Stryt y Parc wedi ei adeiladu o rwbel tywodfaen wedi ei addurno â chonglfeini gyda phediment uwch ben yr agoriad. Ar gornel yr adeilad gyda'r Stryt Fawr a Stryt y Parc, mae braced haearn bwrw addurniadol o'r 18fed - dechrau'r 19eg Ganrif. Mae'n nodwedd hynod a nodedig yn y groesffordd allweddol hon yn y pentref.

4.14 Yn wynebu'r Wynnstay Arms, ar ochr arall Stryt y Parc, y mae Cowrt Wynnstay, sy'n nodwedd amlwg arall ar dirlun yr Ardal Gadwraeth sy'n cau'r olygfa o'r Stryt Fawr. Mae'r adeilad wedi ei adeiladu gyda briciau coch llyfn gyda tho llechi slip ac mae wedi cadw'r rhan fwyaf o'i arddull draddodiadol o waith coed. Mae'n cynnwys dwy uned sy'n wynebu Stryt y Bont ac un yn wynebu Stryt y Parc. Y tu ôl iddynt, y mae rhes o fythynod hanner llawr wedi eu rendro. Mae briciau cochion y cowrt yn gyferbyniad cryf gyda'r tywodfaen mwy amlwg, gan gyfrannu at olygfa stryd ddiddorol ac amrywiol.

4.15 Mae Stryt yr Eglwys yn gul ac mae'r Fynwent a'r bythynnod ar ymyl y ffordd yn creu ffiniau clos ac yn cau amdani. Mae'r adeiladau'n llai na'r rhai ar y Stryt Fawr ac maent yn cynnwys rhai o'r strwythurau cynharaf yn y pentref. Wrth fynedfa'r ardal y tu hwnt i Mary's Salon y mae bythynnod wedi eu rendro a chyn dŷ tafarn y Cross Foxes, sydd bellach yn annedd ychydig yn ôl o'r ffordd. Gerllaw y mae Llys Bowen, sef y datblygiad mwyaf modern ac anghydweddus ar y Stryt Fawr. Er bod yr eiddo wedi eu gosod yn union ger y ffordd ac yn cadw'r llinell adeiladau, mae'r cynllun a'r deunyddiau yn anghyson gyda'r rhai sy'n nodweddu'r ardal.

4.16 Wrth ymyl wal y fynwent mae'r Hen Ysgol Ramadeg a Sied yr hers, y ddau yn adeilad Gradd II Rhestredig. Adeiladwyd yr ysgol ym 1618 ac yn ddiweddarach, cafodd ei throi yn siop tua chanol y 19eg Ganrif cyn ei newid yn dŷ ar ddiwedd yr 20fed Ganrif. Fe'i hadeiladwyd o rwbel tywodfaen heb rediad ac mae iddi gorn simdde helaeth ar un ochr i gyfeiriad Stryt yr Eglwys a ffenestri cas haearn bwrw gyda sawl panel. Mae sied yr hers ynghlwm wrth y talcen dwyreiniol ac mae ganddo borth cerbyd bwa. Ar ongl sgwâr i'r ysgol ramadeg, ger Allt yr Ysgoldy, y mae'r cyn Ysgoldy, sy'n rhoi ei enw i'r allt, wedi ei adeiladu mewn ffordd debyg i'r Ysgol Ramadeg sydd hefyd wedi ei Rhestru yn Radd II.

4.17 Gerllaw, y mae siop un llawr wedi ei hadeiladu gyda briciau coch llyfn a tho slip. Mae cyfeiriad yr adeilad, yn wynebu'r Stryt Fawr, yn ei wneud yn eithaf amlwg ac mae ei gynllun unigryw yn cyfrannu tuag at yr amrywiaeth arddulliau sydd i'w gweld ar Stryt yr Eglwys. Y tu hwnt i hyn, y mae Stonehurst yn un o ddau dŷ tref gradd II rhestredig ar y stryd, a'r llall yw Spring Lodge dros y ffordd. Mae'r ddau'n cyfrannu'n sylweddol at yr olygfa stryd.

4.18 Adeiladwyd Stonehurst a Spring Lodge ar ddechrau'r 19eg Ganrif allan o dywodfaen, yn 2 lawr o uchedr a 3 bae o led, gydag wyneb cymesur a ffenestri sash sy'n llithro ar y ddau lawr. Mae Stonehurst wedi ei leoli y tu ôl i wal friciau isel gyda meini copa arni a rheiliau haearn tal gyda cherrig wrth ymyl y ffordd. Yn ddiddorol iawn, mae'r wyneb sydd yn y cefn wedi ei gynllunio'r un fath un union bron â'r tu blaen, er mwyn gallu ei weld o Stryt y Bont mwy na thebyg. Mae

Spring Lodge wedi ei leoli y tu ol i bileri giatiau carreg mawr a rheiliau.

4.19 Y drws nesaf i Spring Lodge y mae Cambrian Cottage a Cambrian House, sy'n bâr o aneddiadau o'r

18fed Ganrif. Mae Cambrian House wedi ei adeiladu gyda briciau'n bennaf, ac mae ganddo ffrâm goed a mynedfa ar oledd sydd wedi ei rendro. Mae hefyd yn gwyro fymryn i'r stryd, gan roi mwy o bwyslais ar yr ymdeimlad caeedig. Mae'r ddau fwthyn yn cadw rhywfaint o'u ffenestri cas haearn aml banel. O'r pwynt hwn mae'r ymdeimlad caeedig yn lleihau ac mae'r Ardd Orffwys yn ymledu y tu hwnt i wal garreg. Mae cerrig beddi wedi eu gosod o amgylch terfynau'r safle, gan greu ardal agored ddymunol a thawel.

4.20 Mae rhes o fythynnod yn sownd wrth Stonehurst,

rhifau 1-5 Stryt yr Eglwys, sydd bellach wedi eu haddasu'n arw. Mae'r agoriadau gwreiddiol wedi eu haddasu neu eu cau a'r wyneb wedi ei rendro neu ei chwipio â cherrig mân, a phlastig uPVC yn lle'r gwaith coed. Ond, mae rhifau 1 a 2 yn y rhes wedi cadw cryn dipyn o'u cymeriad gwreiddiol gyda'r gwaith briciau yn y golwg o hyd (er gwaethaf peth ailadeiladu) gan ddangos y pen ffenestri a drysau carreg a chadw casment ffenestri aml-baen.

4.21 Y tŷ olaf ar ochr orllewinol y stryd cyn y bont reilffordd gyda'i wyneb carreg helaeth a cherrig diddos, meini copa a chlustogau pen-glin, yw Mount House. Mae ganddo dalcen yn wynebu'r ffordd sy'n ei wneud yn strwythur amlwg o fewn yr olygfa stryd. Mae wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn.

4.22 Mae'r grŵp olaf o adeiladau ar Stryt yr Eglwys cyn i'r ffordd droelli tua Phont Adam yn Elusendai rhestredig Gradd II. Credir eu bod yn dyddio o 1711, ac yn wreiddiol roeddent yn ffurfio rhan o drefniant buarth, ac mae 3 ochr ohono wedi eu dymchwel bellach. Mae'r rhes yn cynnwys 5 annedd un llawr o friciau wedi eu paentio. Mae gan bob un 2 ffenestr gas haearn bwrw gyda 12 paen, a'r rheiny o bopty i'r drws.

4.23 Mae Allt Ysgoldy sy'n serth ac yn gul, yn cysylltu Stryt yr Eglwys gyda Stryt y Bont, ac yn rhoi ymdeimlad caeedig drwy'r waliau cerrig a briciau sydd ar hyd y llwybr. Ar Stryt y Bont, mae Tŷ Tafarn y Bridge End, yn adeilad 2 lawr, wedi ei rendro, ac mae wedi ei leoli'n glyd o dan lefel y ffordd. Wrth gamu'n ôl i fyny tuag at yr Eglwys, mae rhif 3a Stryt y Bont a Thŷ Tafarn y Vaults a thu hwnt iddo mae'r Fynwent yn ymestyn. Mae'r cyfuniad hwn o arddulliau, uchder a defnyddiau adeiladu eglwysig yn creu grŵp treflun diddorol ac amrywiol, ac mae'r Tŷ Crwn sydd yng nghysgod waliau sylweddol y Fynwent, yn ychwanegu at yr olwg honno. Mae'r Ty Crwn, sy'n adeilad rhestredig gradd II yn nodwedd bwysig yn y pentref. Fe'i hadeiladwyd ar ddiwedd y 18fed ganrif fel lle diogel yn y plwyf ac fe'i codwyd o flociau tywodfaen gyda tho bwa ac agoriadau bychain gyda bariau haearn. O'r fan hon, mae'r ffordd yn codi ac yn troi yn ôl tua chanol y pentref, gyda wal fawr y fynwent ar y chwith, yn fframio'r olygfa o'r Wynnstay Arms yn syth o'ch blaen.



Stryt y Parc

4.24 Ar un adeg, hon oedd y ffordd wreiddiol o'r pentref i Stad Wynnstay, ac mae rhyw naws seremonïol i'r stryd hynod lydan hon. Mae dylanwad pensaernïol Stad Wynnstay yn amlwg ym mythynnod gweithwyr y stad sydd i'w gweld ar hyd y ffordd. Mae'r stryd yn cynnwys pedwar bloc cymesur ac unffurf o bedwar bwthyn a phorthdy, a'r rheiny'n rhoi llinell gadarn i'r adeiladu i fframio Bwa Mynediad Stad Wynnstay sy'n cau'r olygfa tua'r de ddwyrain. Mae'r bythynnod, y porthdy a'r fynedfa yn adeiladau rhestredig gradd II. Pan adeiladwyd yr A483, torrwyd trwy'r fynedfa, ffordd a'r tir yn union y tu ôl i Stryt y Parc, a'u gwahanu oddi wrth weddill y stad gan adael ardal o le gwag pwysig ond heb lawer o ddefnydd.

4.25 Cynlluniwyd y fynedfa gan y pensaer John Jones ym 1783, i gymryd lle porthdai cynharach. Mae'r rhodfa fawr gyda choed ar ei hyd, bellach wedi ei hollti gan y ffordd sy'n arwain at yr A483, ac mae'r fynedfa'n segur o'r herwydd. Mae'r bwa wedi ei godi gyda thywodfaen Cefn gyda gatiau a rheiliau haearn bwrw wedi eu codi ym 1912 er mwyn nodi pen-blwydd arbennig 8fed Barwnig, Syr Watkins Williams-Wynne.

4.26 Mae'r bythynnod a'r porthdy yn adeiladau dau lawr gyda thoeau llechi slip a bondo'n ymestyn allan. Maent wedi eu hadeiladu gyda rwbel tywodfaen wedi eu sgwario a chonglfeini addurniadol, ac mae ganddynt gyrn simnai wyth ochrog yn swatio arnynt. Mae gan y bythynnod bâr o ddrysau mynediad canolog ar y blaen gyda mynediad arall ar bob talcen o dan ganopïau carreg. Mae nifer o'r ffenestri wedi eu hadnewyddu gyda chasmentau aml baen traddodiadol o dan gerrig diddos. Ar ben gogledd orllewinol y stryd, y mae'r Constitutional Club, oedd gynt yn Stafell Bentref, gerllaw'r hen Goat Inn ac ardal o dir agored a elwir yn Glan y Geifr ble cynhaliwyd ffeiriau a marchnadoedd.

4.27 Roedd y stryd yn rhan o Gynllun Partneriaeth Treflun rhwng 1996 a 2006 a chafodd y gwaith carreg ei drwsio ac ailosodwyd gwaith coed mewn arddull draddodiadol ar sawl eiddo. Gwnaethpwyd nifer o welliannau i eiddo cyhoeddus hefyd, gan gynnwys adnewyddu arwynebeddau, ac ailosod goleuadau stryd a pholion mewn ffordd fwy traddodiadol a chydnaws. Mae'r gwaith yma i gyd wedi gwella llawer ar ansawdd a golwg y stryd yn y fynedfa bwysig hon i'r Ardal Gadwraeth.

4.28 Mae'r olygfa i'r Ardal Gadwraeth o'r de ddwyrain ar hyd Stryt y Parc yn arwyddocaol hefyd gyda bae wythonglog amlwg Gwesty'r Wynnstay Arms yn ymddangos ar y dde a thŵr Eglwys y Santes Fair yn cau'r olygfa yn syth ymlaen.



Ffigwr 6: Tan-y-Llan a Rhes y Padog

Tan-y-Llan a Rhes y Padog

4.29 Cyrhaeddir Tan-y-Llan ar hyd lôn serth o Stryt y Bont. Mae waliau terfyn cerrig yn ffinio'r ffordd i lawr at y bont sy'n croesi'r afon ac yn troi yn ôl i fyny at Res y Padog, ble mae'r adeiladau wedi eu gosod yn union ger y ffordd, gyda gerddi hir, cul o'u blaenau ar yr ochr arall. Mae ymdeimlad gwledig go arbennig i'r ardal, ac mae topograffeg yr ardal hefyd yn gwahanu'r fan hon oddi wrth weddill craidd y pentref. Ceir ymdeimlad clos a dymunol drwy'r terfynau cerrig, y lonydd a'r gerddi culion, a'r afon gyfagos yn ogystal â'r coed sy'n cau am yr ardal. Mae tywodfaen lleol Cefn yn nodwedd amlwg iawn yn yr ardal, ac fe'i defnyddiwyd yn helaeth i godi adeiladau, waliau a'r bont.

4.30 Adeiladwyd Capel Rhagluniaeth, a agorwyd ym 1834, ar dir oedd yn perthyn i Syr Watkin Williams-Wynn a rhoddodd y pensaer Syr Benjamin Gummow ei wasanaeth i'r Capel heb godi tâl amdano. Mae'n adeilad amlwg ger y fynedfa i Dan y Llan, wedi ei adeiladu o dywodfaen ar hap gyda tho slip a thalcen pediment ar un ochr a ffenestri tal gyda phennau hanner cylch. Yn anffodus, mae'r safle y tu ôl i'r capel wedi tyfu'n wyllt a chollwyd y ffiniau.

4.31 Ar waelod yr allt cyn cyrraedd y bont, mae Melin Rhuddallt, sef 'allt goch'. Fe'i hadeiladwyd fel melin ar lannau'r afon, ond, aed ati'n sensitif i'w throsi'n annedd yn y blynyddoedd diwethaf. Fe'i hadeiladwyd o dywodfaen ar hap gyda tho llechi. Mae manylion y gwaith coed wedi eu hadnewyddu mewn ffordd draddodiadol. O'i blaen y mae wal garreg isel sy'n parhau o amgylch tro siarp ac yn cysylltu gyda'r bont.

4.32 Gyferbyn â'r felin y mae datblygiad modern sef tai wedi eu codi o amgylch lle parcio a gardd ganolog. Nid yw'r drefn hon yn llwyddo i gadw'r llinellau adeiladu tynn sy'n nodweddu'r ardal hon, ac nid yw'r briciau a ddefnyddiwyd, na swm yr adeiladau, yn adlewyrchu eu cefndir. Mae rhes arwyddocaol o goed yn nodi ffin yr Ardal Gadwraeth ac yn gefndir i'r eiddo yma.

4.33 Canolbwynt yr olygfa tua chanol y pentref o'r bont yw Melin Rhuddallt yn y blaen gyda'i gardd yn ffurfio glannau'r afon a phediment carreg Capel Rhagluniaeth yn uwch i fyny y tu ôl iddo. Mae cryn dipyn o goed wedyn yn llenwi'r olygfa.

4.34 Wrth i'r ffordd igam-ogamu i gulni Res y Padog, y

mae'r rhes hir ac unffurf hon yn creu grŵp treflun cryf. Mae'r rhes yn cynnwys 13 bwthyn oedd yn eiddo i Syr Watkin Williams-Wynn yn wreiddiol. Nid yw eu diben gwreiddiol yn glir ond awgrymwyd mai fel stablau y'u defnyddiwyd i ddechrau a byddai hynny'n egluro pam bod y rhes mor hir â'r darnau tir neu'r 'padogau' sydd gyferbyn, a dyma ble daw enw'r stryd mwy na thebyg. Ceir cliwiau hefyd yn nefnydd yr adeiladau eu hunain. Mae'r eiddo wedi eu hadeiladu o gerrig ar hap gyda tho llechi ac agoriadau rheolaidd gyda bylchau cyfatebol ar y llawr isaf, a lintel bloc helaeth dros bob un. Mae'n amlwg bod sawl twll ffenestr wedi bod yn ddrysau ar un adeg, a hynny'n cyd-fynd â'u defnyddio fel stablau, oherwydd yr asiad syth yn y gwaith carreg.

4.35 Ar gornel Rhes y Padog gyda Stryt y Dug y mae Tŷ Tafarn y Duke of Wellington. Mae prif gorff yr adeilad yn 3 llawr o uchder a 3 bae o led. Mae wedi ei orffen gyda cherrig mân gyda manylion megis architrafau a chonglfeini wedi eu pigo mewn render llyfn. Mae ffenestri sash sy'n llithro ar y lloriau uchaf. Gyferbyn y mae rhes o fythynnod bychan 2 lawr, a'r rheiny wedi eu rendro a'u hagoriadau gwreiddiol wedi eu newid. I'r dde o'r tŷ tafarn, y mae Cwrt Wynnstay sy'n

ddatblygiad modern o fflatiau o fewn adeiladau 2-3 llawr wedi eu hadeiladu gyda briciau ac mae ganddynt do slip llechi. O'r fan hon, mae'r ffordd yn codi'n serth dros yr afon ac yn ôl i Stryt y Bont.

4.36 Ar y gyffordd rhwng Rhes y Padog a Stryt y Bont yn wynebu Ffordd yr Orsaf, y mae'r Hen Fecws nodedig ac Apple Bank i'r dwyrain a Chapel Methodistaidd Ffordd y Parc i'r gorllewin. Mae Apple Bank a'r Hen Fecws yn bar o aneddiadau a adeiladwyd o gerrig ar hap gyda chonglfeini wedi eu trin, a'r ddau gynt yn siopau ond bellach wedi eu newid mewn dull sensitif. Mae gan yr Hen Fecws do slip, nodwedd gyffredin yn yr Ardal Gadwraeth.

4.37 Mae'r Capel Methodistaidd yn dyddio o 1895 ac fe'i hadeiladwyd o friciau coch Rhiwabon gyda thywodfaen wedi eu trin.



Ffigwr 7: Gorsaf Rhiwabon a Rhes y Rheilffordd

Gorsaf Rhiwabon a Rhes y Rheilffordd

4.38 Prif nodweddion yr ardal hon yw'r Afon Eitha a choed a llwyni sy'n rhoi lleoliad gwledig i adeiladau'r ardal ac yn enwedig i Orsaf Rhiwabon sy'n adeilad rhestredig Gradd II. Rhes y Rheilffordd yw'r grŵp treflun mwyaf arwyddocaol sydd, ynghyd â'r afon a dynesfa'r orsaf, yn rhoi llinell gref o gymeriad.

4.39 Mae Gorsaf Rhiwabon wedi ei fframio gan goed a llwyni a'i chwmpasu gan gefndir o goed y tu hwnt i blatfformau'r orsaf. Adeiladwyd yr adeilad presennol yn y 1860'au i gynllun Henry Robertson, i gymryd lle'r orsaf wreiddiol a ddyluniwyd gan T.M. Penson. Fe'i hadeiladwyd ar ffurf Adfywiad Gothig Tuduraidd gyda thywodfaen wedi ei naddu gyda chonglfeini garw, cyrn simnai carreg a ffenestri gyda physt a thrawslath. Mae adain gyda thalcen yn ymestyn o bob pen i'r adeilad, gyda'r adain dde yn diweddu'r olygfa o Ffordd yr Orsaf. Mae'r adeilad wedi ei ddefnyddio ar gyfer swyddfeydd yn y blynyddoedd diwethaf ond mae'n wag ar hyn o bryd. Mae pedwar annedd briciau coch unigol o ddiwedd yr 20fed Ganrif yn cydredeg â Ffordd yr Orsaf o'i chyffordd gyda Stryt y Bont, ac mae eu graddfa a'u defnyddiau'n cydweddu â'u hamgylchedd.

4.40 Islaw'r orsaf ar ochr arall yr afon, y mae Rhes y Rheilffordd, sy'n cynnwys dau floc o bedwar bwthyn sy'n dyddio o ganol y 19eg Ganrif. Fe'i hadeiladwyd gyda briciau, ac mae ganddynt do llechi slip gyda chyrn simnai briciau. Mae pob wyneb yn cynnwys dwy ffenestr ar bob llawr gyda drws ar un ochr o dan ganopi carreg gwastad. Mae mwyafrif yr eiddo wedi eu haddasu bellach gyda rendrad neu baent ar wyneb y briciau a'r drysau a'r ffenestri gwreiddiol wedi eu cyfnewid am rai modern. Ond, mae rhifau 2 a 6 yn y Rhes yn dal i arddangos eu nodweddion gwreiddiol ac wedi cadw eu ffenestri casment haearn aml-baen. Mae eiddo Rhes y Rheilffordd wedi eu lleoli yn union ar ochr y ffordd sydd â rhes o waliau cerrig gyda cherrig copa gwastad arnynt a llwyni yn rhedeg wrth ochr yr Afon Eitha a'i glannau coediog. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhoi teimlad caeedig a chymeriad gwledig sy'n debyg i Dan-y-Llan.

4.41 Rhwng Rhes y Rheilffordd a Thŷ Tafarn y Bridge End, mae grŵp o eiddo o wahanol oedran a elwir The Walks sy'n cynnwys cymysgedd o du blaen briciau cochion a rhai wedi eu rendro, o amrywiol uchder ac mae eu cyfeiriad ar onglau syth i'r eiddo cyfagos yn creu nodwedd dreflun ddiddorol. Ceir golygfeydd oddi yma tuag at gefn Stryt yr Eglwys ac wyneb ôl mawreddog Stonehurst, a gynlluniwyd i fod yn ddrych o'i du blaen.



Ffigwr 8: Pont Adam a Bryn Hyfryd

Pont Adam a Bryn Hyfryd

4.42 Mae'r ardal hon yn cynnwys eiddo rhes wedi eu hadeiladu o garreg, waliau terfyn a phontydd carreg, ac yn eu mysg adeiladau yn arddull yr Adfywiad Gothig yr Eglwys Annibynnol a phorthdy'r Fynwent. Unwaith eto, mae'r afon yn nodwedd bwysig.

4.43 Ar safle uchel uwchben Pont Adam, y mae Bryn Hyfryd, sy'n dyddio o ganol y 19eg Ganrif. Mae'r rhes yn cynnwys 10 o fythynnod carreg hap gyda tho llechi slip a chyrn simnai briciau, a phot corn simnai addurniadol ar rai. Mae'r rhan fwyaf o fanylion gwreiddiol y drysau a'r ffenestri wedi mynd, er bod ffenestri casment haearn aml-baen yn parhau ar lawr isaf Rhif 1. Mae'r gerddi'n ymestyn y tu blaen i bob eiddo a llwyni yn creu israniad i'r rhan fwyaf ohonynt sy'n meddalu'r olygfa o'i chymharu â ffasâd carreg trwm y rhes. Mae gardd Rhif 1 Bryn Hyfryd wedi ei hamgylchynu gan wal garreg gyda meini copa pyramid.

4.44 Y tu ôl i'r rhes, y mae'r fynwent a'i borth mynediad wedi eu cynllunio yn arddull yr Adfywiad Gothig a'u codi gyda thywodfaen. Mae ganddo fynedfa gyda thalcen ar ongl serth gyda chapel o bopty a bwthyn 2 lawr gydag wyneb talcen ynghlwm wrtho ar yr ochr chwith. Yn anffodus, mae ffens balis diolwg i'w gweld wrth ddynesu at y porth o gyfeiriad y dwyrain.

4.45 O Fryn Hyfryd, ceir golygfeydd ymhell ar hyd Stryt yr Eglwys, y tu hwnt i'r Eglwys tuag at Stad Wynnstay a Cholofn Wynnstay uwchben y coed.

4.46 Ar safle uchel uwchben Pont Adam, y mae Eglwys Gynulleidfaol Stryt yr Allt, gyda'i mynwent y tu ôl i wal garreg uchel ar hyd ymyl y ford. Adeiladwyd yr eglwys gradd II rhestredig ym 1857-8 i gynllun W.I Mason o Lerpwl. Fe'i codwyd yn arddull yr Adfywiad Gothig gyda rwbel tywodfaen wedi eu sgwario a'u gosod mewn haenau bras, ac mae ysgoldy yn sownd y tu cefn iddi. Mae ei thalcen blaen serth yn nodwedd amlwg wrth agosáu tuag at Bont Adam.

4.47 Mae wal y Fynwent yn amgylchynu'r ffordd yn dynn gan ddisgyn yn serth nes cyfarfod â bythynnod carreg 1-3 Pont Adam i roi parhad ac wyneb cryf i'r stryd. Mae gan y bythynnod do llechi slip a 2 ffenestr ar bob

llawr wedi eu gosod yn gymesur o amgylch drws canolog y tu ôl i gynteddau a adeiladwyd yn ddiweddarach gyda gorffeniad o render rhesog. Wedi ei osod ar ganol y llawr cyntaf yn y bwthyn sydd yn y canol, mae plac gyda'r llythrennau 'WWW' wedi eu cerfio arno, sef llythrennau enw Syr Watkin Williams-Wynn.

4.48 Yn union gyferbyn â'r bythynnod, mae lôn gul yn arwain i lawr at Brookside, strwythur anarferol ond digon deniadol a adeiladwyd ar safle'r hen waith nwy. Mae'n cynnwys dwy adain bob pen mewn gwaith carreg, a'r rheiny wedi eu gosod o amgylch bae briciau canolog gyda tho conigol addurniadol. Yr elfen garreg i'r dde o'r bae briciau yw rhan hynaf yr adeilad, ac mae'r gweddill yn dyddio o ddiwedd yr 20fed ganrif. Mae'r llwybr troed cyfagos sy'n arwain at y bont droed dros y rheilffordd yn rhedeg gen ymyl rhaeadr, i fyny'r afon ymysg y coed.

4.49 Mae bythynnod Nant-y-Gwalia 1 a 2 wedi eu gosod y tu ôl i wal friciau coch ar ochr chwith Pont Adam. Mae'r aneddiadau hyn yn dyddio o ddiwedd y 19eg Ganrif ac wedi eu hadeiladu gyda briciau coch llyfn gyda tho llechi, cyrn simnai briciau corbelog a ffenestri sash 12 paen ar bob llawr, a'r rheiny ar y llawr cyntaf o dan dalcenigau. Mae'r drysau blaen wedi eu gosod yn barau ac maent yn rhannu canopi. Mae'r ddau fwthyn wedi cadw eu cymeriad gwreiddiol. Gerllaw, y mae Tŷ Tafarn Nant, eiddo sylweddol wedi ei rendro a'i baentio'n wyn gyda manylion megis architrafau wedi eu lliwio'n ddu, yn yr un math o arddull a rhif 4 Pont Adam yn union gyferbyn. Mae'n bosibl mai'r porth trawiadol yw'r unig gliw sy'n weddill i awgrymu defnydd blaenorol y Nant, sef Tŷ Tafarn: mae ganddo gysgod carreg wastad gyda gwaith sgrôl uwchben yn cael ei gynnal gan gonsolau carreg ar bileri. O fewn yr ardal hon, mae amrywiaeth y defnyddiau a'r arddulliau adeiladu wedi eu gosod mor gols at ei gilydd, yn creu golygfa stryd amrywiol a diddorol iawn.

4.50 I lawr yr afon o'r bont, mae eiddo Teras Pen y Gorllewin ar y naill ochr a'r hen Nant ar y llall yn ffurfio terfynau tyn i'r Afon Eitha. Mae Teras Pen y Gorllewin yn cynnwys 5 bwthyn wedi eu gosod islaw lefel y ffordd. Mae rhif 1 yn wynebu'r ffordd a cheir mynediad iddo o lefel y llawr cyntaf. Mae'r teras wedi ei adeiladu gyda rwbel tywodfaen ar hap gyda chonglfeini carreg a tho llechi. Mae linteli a sil ffenestri carreg i bob agoriad, ond yn anffodus, mae'r holl waith coed gwreiddiol wedi ei newid. Mae'r gerddi wedi eu lleoli gyferbyn ac mae gwrych yn cau o'u cwmpas ac un wal garreg sy'n weddill gyda meini copa dafad ac oen.



Ffigwr 9: Teras Grenville

Teras Grenville

4.51 Mae waliau terfyn tywodfaen yn dynodi'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth o'r de orllewin ar hyd y B5605. Mae'r waliau'n amlwg ar ddwy ochr y ffordd, ac maent yn eich tywys tuag at ganol y pentref, a daw'r olygfa i ben gyda thŵr yr eglwys yn codi uwchben y pentref gyda choed aeddfed o'i flaen. Diben y waliau i'r de o'r ffordd, yn wreiddiol, oedd gweithredu fel wal derfyn i Stad Wynnstay ac maen nhw'n cynnig tystiolaeth bellach o bwysigrwydd y stad yn natblygiad yr annedd. Y tu hwnt i'r waliau, mae coed a deiliach dwys yn ddymunol wrth nesáu at y pentref ac yn gwahanu'r stadau tai dwys ar ymylon y pentref gyda'r craidd mwy hanesyddol.

4.52 Adeiladwyd Teras Grenville ar ddiwedd y 19eg Ganrif, ac mae'n cynnwys 4 annedd wedi eu gosod yn ôl o'r ffordd o flaen gerddi blaen hir gyda therfyn o wal garreg dywodfaen isel gyda chopa tywodfaen plaen a giatiau haearn syml. Mae'r eiddo wedi eu codi gyda thywodfaen di gwrs ar y tu blaen a'r ochrau ond briciau yn y cefn gyda thoeau llechi serth a chyrn simnai briciau bwff. Mae gan rif 1 Teras Grenville feini copa ar y talcen. Mae'r rhan fwyaf o ffenestri'r eiddo wedi eu hadnewyddu, a'u gosod nôl gyda phaent o'u hamgylch. Mae'r datblygiad yn arddull y teras gyda defnyddiau lleol, yn nodweddiadol o'r datblygiadau mwy hanesyddol yn y pentref.

5 Crynodeb o Nodweddion Negyddol

5.1 Mae sawl ffactor wedi eu nodi fel rhai sy'n achosi niwed i ansawdd gweledol a chymeriad yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys:

Defnyddiau a Newidiadau Anaddas

5.2 Mae'n amlwg drwy'r Ardal Gadwraeth fod newidiadau neu waith trwsio wedi eu gwneud, sy'n achosi niwed i gymeriad a golwg yr adeiladau yn y pen draw. Nid yw ffenestri modern gwael, yn enwedig y rhai sydd â fframiau uPVC, yn cynnal ansawdd dyluniad ac edrychiad y nodweddion gwreiddiol. Gall rhai nodweddion estron, megis cynteddau ac estyniadau to gwastad ymddangos weithiau yn anghyson ag arddull a chyfnod yr adeilad presennol. Er bod sawl terfyn carreg gwreiddiol yn parhau, mae rhai achosion lle maent wedi eu haddasu neu eu cyfnewid neu lle mae terfynnau newydd wedi eu codi gyda ffens goed o estyll clos.

Adeiladau a Safleoedd a Esgeuluswyd

5.3 Mae sawl adeilad segur yn yr Ardal Gadwraeth, ac mae gan bob un ohonynt werthoedd pensaernïol arbennig neu maent yn gwneud cyfraniad pwysig i olwg y stryd. Ar y funud, fodd bynnag, maen nhw'n tynnu oddi wrth edrychiad yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys Capel Rhagluniaeth, Tan-y-Llan, Gorsaf Rhiwabon, rhifau 1-4 Teras Grenville a Mount House, Stryt yr Eglwys. Mae'r safle ger Capel Rhagluniaeth wedi ei esgeuluso ac yn tyfu'n wyllt ac mae ei wal derfyn, sydd wedi ei cholli'n rhannol, yn effeithio ar nodwedd linell adeiladu ddi-dor Tan-y-Llan. Mae'r tir ger Mount House hefyd wedi tyfu'n wyllt ac wedi ei ddefnyddio i waredu sbwriel. Mae'r hen iard adeiladwyr y ceir mynediad iddi o Res y Rheilffordd yn ddefnydd anaddas yn y man hwn. Mae hen dir Stad Wynnstay oddi ar Stryt y Parc wedi tyfu'n wyllt ac mae'n tynnu oddi ar leoliad y fynedfa a'r porthdy rhestredig. Cafodd y safle ei dirlunio'n flaenorol ac ychwanegwyd llwybrau a meinciau er mwyn darparu lle agored i'r cyhoedd. Ond, mae angen ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd a gwella'r goleuadau yno er mwyn cynyddu'r defnydd a'r mwynhad a geir o'r ardal.

Adeiladau Rhestredig mewn Perygl

5.4 Nid oes adeiladau rhestredig ar hyn o bryd o fewn yr Ardal Gadwraeth yr ystyrir eu bod yn Adeiladau mewn Perygl, ond mae 7 adeilad sydd angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd i'w rhwystro rhag mynd i'r categori hwn. Mae'r rhain yn cynnwys Mary's Salon, Stryt yr Eglwys; Gorsaf Reilffordd Rhiwabon; Giatiau Rhiwabon, Stryt y Parc; pileri, waliau a rheiliau, yr Eglwys Gynulleidfaol, Pont Adam; waliau'r mynwent, Eglwys y Santes Fair; waliau a rheiliau Spring Lodge, Stryt yr Eglwys, sied yr hers, Stryt yr Eglwys.

Rhan 2
Cynllun Rheoli

6.1

CYNIGION CYFFREDINOL I WARCHOD A GWELLA	
CYNIGION I WARCHOD A GWELLA	
Adfer Nodweddion a Gollwyd	Mae manylion pensaernïol traddodiadol a defnyddiau lleol yn bwysig a dylid eu cadw, trwsio neu eu hadfer pan gollir hwy. Mae'n bosibl y bydd cymorth grantiau ar gael ar gyfer y gwaith (Gweler adran 9.0 y ddogfen hon). Bydd Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) yn sicrhau fod manylion traddodiadol a rhai gwreiddiol yn cael eu hamddiffyn a lle bo angen, y gosodir rhai newydd. Eglurir oblygiadau Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) ymhellach yn adran 8.0 y ddogfen hon.
Gwella'r Priffyrdd	Dylid cynllunio gwaith ar y priffyrdd yn unol â'r canllawiau a nodir yn Adran 7.0 y ddogfen hon.
Petheuach y Stryd	Cynhelir archwiliad o arwyddion ffordd, marciau a dodrefn stryd, yn ystod 2010/11 i asesu nifer yr elfennau diangen yn ogystal â'r rhai sy'n niweidiol i leoliad adeiladau pwysig a golwg y stryd yn gyffredinol.
Cynnal a chadw	Anogir gwaith trwsio a chynnal a chadw sensitif a rheolaidd drwy ddosbarthu nodiadau cynnal a chadw adeiladau hanesyddol, a chyngor cyffredinol drwy'r broses Rheoli Datblygu. Mae'n hynod bwysig bod technegau a defnyddiau traddodiadol yn cael eu defnyddio i gadw cymeriad hanesyddol arbennig a golwg yr ardal.
Tu blaen y siopau/arwyddion	Cynhyrchir canllawiau penodol ar gyfer tu blaen siopau yn yr Ardal Gadwraeth yn 2010/11 i sicrhau bod tu blaen gwreiddiol y siopau a'r rhai sy'n weddill yn cael eu cadw, a bod tu blaen ac arwyddion siopau newydd wedi eu dylunio i gydweddu â chynllun cyffredinol yr adeilad ac i adlewyrchu cymeriad yr ardal.
Datblygiad Newydd	Mae'n rhaid i ddatblygiadau barchu graddfa, cynllun, cymesuredd a defnyddiau'r bensaernïaeth gyfagos er mwyn cryfhau undod y stryd. Mae'n hanfodol fod graddfa ac amrywiaeth y bensaernïaeth gyfagos yn cael ei pharchu a bod cynllun dyfeisgar, o ansawdd uchel yn cael ei ddefnyddio. Darperir Canllawiau Dylunio Manwl yn Adran 7.0 y ddogfen hon.
Coed	Mae'r coed yr ystyrir eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal wedi eu nodi yn Ffigurau 3 i 8 y ddogfen hon. Ymatelir rhag gwaith coed yr ystyrir eu bod yn niweidiol i'r cymeriad lleol. Pan mae'n rhaid cael gwared ar goed, anogir cynllun ailblannu priodol.
Archaeoleg	Efallai y bydd angen lliniaru archeolegol wrth ymateb i gynigion datblygu yn y craidd hanesyddol. Anogir ymgynghori'n fuan gydag Ymddiriedolaeth Archaeoleg Clwyd-Powys yn ymwneud ag unrhyw annedd neu estyniad newydd, er mwyn osgoi wrth gyflwyno cais.
Golygfeydd Pwysig	Mae'r golygfeydd tuag at yr Ardal Gadwraeth, o'i mewn a thuag allan, yn enwedig y rhai o'r Eglwys yn hanfodol i ansawdd arbennig y lle. Bydd eu gwarchod a'u gwella yn cael ystyriaeth arbennig wrth benderfynu ar unrhyw ddatblygiad a gynigir.

6.2

CYNIGION CYFFREDINOL I WARCHOD A GWELLA	
Mae'r canlynol wedi eu nodi fel cyfleoedd i wella'r Ardal Gadwraeth. Mae cyflawni'r gwaith yma yn ddibynnol ar gael cymorth ariannol neu grant:	
CYNIGION GWELLA	CORFF A CHYFRIFOLDEB
Toiledau Cyhoeddus y Stryt Fawr - Pe bai'r cyfle yn codi yn y dyfodol, dylid adleoli'r toiledau cyhoeddus i fan mwy disylw.	CBSW - Adran yr Amgylchedd
Adeiladau gwag neu agored i ddifrod - Mae Mount House, Mary's Salon, Gorsaf Rhiwabon rhifau 1-4 Teras Grenville a Chapel Rhagluniaeth yn adeiladau allai fod mewn perygl pe gadewid i'w cyflwr ddirywio. Cysylltir â pherchnogion yr eiddo yma er mwyn penderfynu ar ffordd ymlaen gan ymchwilio i'r posibilrwydd o gymorth grantiau.	Perchennog tir preifat
Trwsio ac adfer wyneb ffasadau yn Stryt y Parc - Bydd yr ymchwilio'n parhau i ffynonellau grant posibl er mwyn cynorthwyo'r gwaith o adfer golwg y stryd ymhellach.	Perchennog tir preifat
Waliau Cerrig - Maen nhw'n ffurfio terfyn pwysig sy'n ychwanegu'n sylweddol at gymeriad yr Ardal Gadwraeth a byddent yn cael budd o gynllun atgyweirio cynhwysfawr.	Perchennog tir preifat
Gwelliannau Priffyrdd i Res y Padog a Tan-y-Llan - Byddai'r ardaloedd hyn yn cael budd o fwy o oleuadau stryd a gwell wyneb ar y priffyrdd.	CBSW - Yr Adran Rheoli Trafnidiaeth ac Asedau
Plannu coed ar Stryt y Parc - Byddai plannu coed bychan i ganolig yn creu golygfa stryd ddymunol, gan greu diddordeb a gwella lleoliad yr adeiladau rhestredig.	CBSW - Adran yr Amgylchedd
Gwell rheolaeth ar yr ardal agored oddi ar Stryt y Parc - Mae hon yn ardal bwysig o dir agored nad yw'n cael ei defnyddio'n effeithiol oherwydd diffyg rheolaeth. Byddai rheoli twf planhigion, cynnal a chadw llwybrau a gwella goleuo yn creu amgylchedd mwy deniadol.	CBSW - Adran yr Amgylchedd
Safleoedd a Esgeuluswyd - Mae angen ail-ddatblygu safleoedd ger Capel Rhagluniaeth, Mount House a'r iard adeiladu y ceir mynediad iddi o Res y Rheilffordd, er mwyn gwella golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae'n rhaid cynllunio datblygiad newydd yn unol â'r canllawiau a nodir yn adran 7.0 y ddogfen hon.	Perchennog tir preifat

7 Canllaw Dylunio

7.1 Mae cymeriad yr adeiladau unigol ac wyneb y stryd, sydd yn ffurfio'r Ardal Gadwraeth, yn deillio o nifer o ffactorau, y mae'r canllaw dylunio canlynol yn ymwneud â hwy. O fewn y ffiniau hyn, mae lle i ddyfeisgarwch pensaernïol o ansawdd uchel, cyn belled ei fod yn cydweddu â'r cymeriad presennol o ran y canlynol:

Graddfa

7.2 Mae'n rhaid i waith adnewyddu ac ailddatblygu barchu lled plotiau traddodiadol ac osgoi gormodedd o wynebau ailadroddus a di-dor sy'n nodweddu cymaint o ddyluniadau modern.

Cyfrannedd

7.3 Roedd arddulliau adeiladu hŷyn yn dilyn systemau traddodiadol o gyfrannedd. Ym mwyafrif adeiladau'r Ardal Gadwraeth, mae'r berthynas rhwng ffenestri, drysau, uchder lloriau a pherthynas solid a gwagle (maint arwynebedd y wal mewn perthynas â nifer a maint y tyllau ffenestri a drysau) yn hanfodol yn nyluniad yr wynebau. Dylid dynwared cyfraneddau traddodiadol mewn datblygiad newydd.

Llinell Adeiladu

7.4 Mae'n rhaid i ddatblygu wynebau gydymffurfio â phatrwm hanesyddol y stryd.

Toeau

7.5 Mae llinell y to bron yn ddi-ffael, yn nodwedd amlwg mewn adeilad ac mae'n hanfodol cadw manylion ac addurniadau siâp, uchder, ymyl a bondo gwreiddiol. Mae uchder a siâp y to yn bwysig. Mae toeau gwastad yn ddieithr i draddodiadau lleol ac nid ydynt yn dderbyniol fel rheol. Toeau slip yw'r arddull fwyaf cyffredin yn Ardal Gadwraeth Rhiwabon. Mae cyrn simnai yn nodweddion pwysig o ffurf y toeau a dylid eu cadw hyd yn oed os nad oes eu hangen mwyach. Pan fydd angen cyfnewid deunyddiau toi, dylent gyfateb o ran lliw, maint a gwead i'r gwreiddiol. Dylid toi ac ail-doi toeau gyda defnyddiau traddodiadol a chyfnewid tebyg am debyg lle bo'n hanesyddol briodol. Os oes angen awyru, dylid gwneud hynny mewn ffyrdd nad ydynt yn tynnu sylw; byddai awyru o dan y bondo yn dderbyniol, ond ni fyddai awyru sy'n weledol ar y to yn dderbyniol.

Waliau Allanol

7.6 Mae'n rhaid i unrhyw waith trwsio neu newid i waliau allanol barchu'r deunyddiau adeiladu presennol a chydweddu a nhw o ran gwead, ansawdd a lliw. Dylid gwneud pob ymdrech i gadw neu ail-ddefnyddio gwaith brics neu garreg wyneb, ac ni ddylid ei ail-rendro, ei chwipio na'i baentio. Mae'n rhaid gwneud unrhyw ail-bwyntio gyda mortar sy'n cydweddu a'r lliw, math a'r gwead

presennol ac yn hanesyddol, byddai wedi cynnwys calch a thywod. Mae mortar caled, modern yn atal gwlybaniaeth rhag anweddu drwy bob uniad, sy'n cael ei dynnu wedyn trwy'r deunydd meddal nesaf, y garreg ei hun a thrwy hynny, wneud niwed i ymddangosiad a strwythur yr adeilad. Ni ddylid glanhau'r render gwreiddiol i ddangos cerrig rwbel, waliau brics na fframiau coed, na fwriadwyd eu datgelu. Yn draddodiadol, roedd gan orffeniad render sylfaen galch. Bydd render mwy modern, a chaled yn atal anweddiad y lleithder, sy'n gallu casglu rhwng y wal a'r render gan achosi lleithder mewnol. Pan fo'n briodl, dylid cyfnewid render sment caled am un calch yn ei le.

Nwyddau Dŵr Glaw

7.7 Dylid trwsio neu gyfnewid nwyddau dŵr glaw haearn bwrw fel bo'r angen am rai'r un fath. Nid yw gwterydd plastig yn briodol ar Adeilad Rhestredig ac adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth. Nid yw'n hanesyddol gywir ac nid yw'n gwella cymeriad adeilad. Gall gwterydd haearn bwrw barhau am oes os cânt eu cynnal a'u cadw, eu trwsio a'u gosod yn iawn.

Ffenestri

7.8 Mae'r rhain yn nodweddion pwysig ac mae'n rhaid iddynt fod mewn cyfrannedd, mewn perthynas dda'r naill gyda'r llall a chydag adeiladau cyfagos a dylent barchu'r tyllau presennol. Dylai unrhyw waith trwsio neu gyfnewid gyfateb i'r gwreiddiol, ond, eu cadw yw'r ystyriaeth gyntaf bob amser. Mae hyn yn cynnwys elfennau strwythurol y ffenestr yn ogystal â'r gwydr hanesyddol a dodrefn gwreiddiol y ffenestr. Mae'r dull agor, yn arbennig o bwysig, yn ogystal â pha mor bell yn ôl y'i gosodir a rhannau'r bariau gwydrog. Mae trwch a mowld y bariau gwydrog, maint a threfn y paenau, yn elfennau hanfodol i benderfynu ar ffenestri newydd addas, er mwyn parchu oedran adeilad. Nid yw'n dderbyniol newid ffenestri coed neu haearn gyda rhai uPVC, waeth beth fo'u patrwm. Mae'n rhaid rhoi gorffeniad paent i bob ffenestr yn hytrach na dewis staen modern.

Drysau

7.9 Dylid cadw fframiau, drysau a dodrefn drysau gwreiddiol lle bo modd. Mae'n rhaid eu newid am rai sy'n cyfateb o ran cyfrannedd, arddull a defnyddiau i'r gwreiddiol a dylid rhoi gorffeniad paent iddynt. Mae manylion megis panelau a ffenestri linter yn elfennau hanfodol wrth benderfynu ar fathau addas o ddrysau newydd, o ran oedran adeilad. Dylid dylunio cynteddau o fewn cyd-destun cyffredinol ac arddull bensaernïol yr adeilad a chyfeirio hefyd at arddulliau priodol cyfagos. Ni ddylent fod yn rhy amlwg ar yr wyneb blaen.

Nodweddion Addurniadol

7.10 Mae'n rhaid cadw nodweddion megis mowldiau terracotta, ffigurau, arysgrifau, rheiliau, nodweddion goruwchadail a gwaith haearn addurniadol ayyb. lle bynnag bo modd fel nodweddion cymeriad yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth yn gyffredinol.

Triniaeth Derfyn

7.11 Ni fydd newid na chael gwared ar waliau terfyn yn cael ei ystyried yn ffafriol. Dylid gwneud gwaith cynnal a chadw gan ddefnyddio defnyddiau'r un fath ac yn yr un arddull neu fond a rhoi meini copa newydd yn lle'r rhai a gollwyd i gydweddu â'r defnyddiau presennol. Nid yw'n dderbyniol defnyddio sment caled i ail-bwyntio uniadau, gan ei fod yn cynyddu cyfradd dadfeilio'r tywodfaen yn arbennig.

Arwynebeddau

7.12 Dylid osgoi gorddefnyddio wyneb macadam dwys a chymryd y cyfle i osod defnyddiau traddodiadol, naturiol a gorau oll os ydynt yn rhai lleol a'u lliw, gwead a'u patrwm yn cyd-fynd a chymeriad yr ardal ac yn ystyried adeiladau cyfagos.

Gwaith Priffyrdd

7.13 Dylid symud dodrefn stryd segur neu ddiangen megis arwyddion, biniau neu bolion er mwyn lleihau nifer y petheuach ar y stryd. Mae'n rhaid cadw unrhyw nodweddion hanesyddol megis arwyddion stryd, a dylid integreiddio unrhyw eitemau newydd megis bolardiau ac arwyddbyst, i'r olygfa stryd mewn perthynas dda ag adeiladau cyfagos a'r ardal yn gyffredinol. Dylai nifer a maint arwyddion ffyrdd fod cyn lleied â phosibl, a'u goleuo pan fo angen yn unig. Dylai'r platiau cefndir fod yn ddu neu'n llwyd, gan osgoi rhai melyn llachar. Pan mae'n rhaid cael llinellau ffordd, dylid cyfyngu ar eu lled mewn Ardal Gadwraeth.

Cynhyrchu Micro Ynni

7.14 Er y dylid annog defnyddio systemau micro ynni, ni chânt eu derbyn lle mae'r offer wedi eu rhoi yn sownd wrth du blaen adeiladau neu brif du neu'r tu sydd yn y golwg, ble byddent yn cael effaith weledol negyddol ar yr Ardal Gadwraeth neu lle bydd defnydd neu leoliad Adeilad Rhestredig yn cael effaith niweidiol.

8 Rheolaethau Ardal Gadwraeth

Rheolaethau Arbennig

8.1 Er mwyn amddiffyn yr amgylchedd arbennig, mae rheolau llymach yn bodoli yn yr Ardal Gadwraeth. Nid l lesteirio newid yw eu bwriad, ond yn hytrach fel rheolaeth bositif i ddiogelu cymeriad yr ardal gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwerau ychwanegol i reoli estyniadau ar aneddiadau, estyniadau i doeau ac addasiadau, cladin, garej a lleoli soseri lloeren.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n ymwneud â dymchwel yn llwyr yn gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth. Ni roddir caniatâd i ddymchwel fel arfer oni bai ei bod yn wybyddus pa fath o ailddatblygu a fydd yn digwydd yno.
- Mae angen rhoi rhybudd o chwe wythnos i'r Cyngor cyn gwneud gwaith ar goed.

Gyda phob cais datblygu ac arddangos hysbysebion mewn Ardal Gadwraeth, mae angen gofal ychwanegol i sicrhau fod cynlluniau'n gwella ac yn cadw cymeriad arbennig ardal. Mae'r dylunio a dewis y defnyddiau'n arbennig o bwysig yn yr ystyr hwn.

Adeiladau Rhestredig

8.2 Mae Adeilad Rhestredig yn un yr ystyrir ei fod o 'ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig' ac o'r herwydd bod angen ei warchod yn arbennig. Unwaith y bydd wedi ei restru, caiff adeilad ei warchod o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Rhestru'n amddiffyn yr adeilad cyfan, y tu mewn a'r tu allan waeth beth fo'r rheswm dros ei restru, yn ogystal ag unrhyw wrthrych neu strwythur sy'n sownd wrth yr adeilad neu unrhyw wrthrych neu strwythur o fewn ffiniau'r adeilad, sydd wedi bodoli ers cyn 1af Gorffennaf 1948. Mae hyn er mwyn sicrhau gwarchod cymeriad arbennig yr adeilad a'i leoliad.

8.3 Pan fydd cais am wneud gwaith ar Adeilad Rhestredig, y cyngor gorau bob amser yw gwirio gydag Awdurdod Cynllunio'r Cyngor a oes angen Caniatâd Adeilad Rhestredig. Gydag unrhyw waith arfaethedig, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i'r dymuniad i gadw'r adeilad, ei leoliad arbennig a'i nodweddion diddordeb arbennig.

8.4 Wrth ystyried unrhyw waith i Adeilad Rhestredig, y prif amcan yw cadw'r holl nodweddion gwreiddiol a defnydd yr adeilad lle bo modd. Mae angen Cydsyniad Adeilad Rhestredig i ddymchwel adeilad rhestredig neu i wneud addasiadau, allai effeithio ar gymeriad, didwylledd neu ddiddordeb arbennig adeilad. Gallai hyn gynnwys newid ffenestri a drysau, newid defnyddiau'r to, paentio gwaith briciau, symud neu dynnu waliau mewnol neu waith plaster, llefydd tân, estyll y llawr neu risiau. Efallai na fydd angen caniatâd pan newidir un peth am rywbeth arall tebyg, ond y cyngor gorau yw gwirio cyn cychwyn unrhyw waith bob amser. Mae gwneud unrhyw waith heb y caniatâd angenrheidiol yn drosedd sy'n dwyn cosb sylweddol i'r rhai sydd yn gysylltiedig, yn dilyn erlyniad llwyddiannus.

Adeiladau Masnachol

8.5 Nid oes gan eiddo defnydd masnachol Hawliau Datblygu a Ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Felly, yr unig waith y gellir ei wneud heb

Ganiatâd Cynllunio yw gwaith trwsio a chynnal a chadw ac addasu mewnol, cyn belled nad yw'r adeilad yn Adeilad Rhestredig.

Cyfarwyddyd Erthygl 4(2)

8.6 Gall newidiadau bychain a fesul mymryn achosi difrod sylweddol i gymeriad ac edrychiad Ardal Gadwraeth. Efallai nad yw cyfnewid defnyddiau traddodiadol am rai eraill anaddas neu symud nodweddion gwreiddiol yn ymddangos fel pe bai'n cael effaith sylweddol, ond gyda'i gilydd, y mae effaith yr holl fan newidiadau hyn yn erydu cymeriad yr ardal yn raddol. Nid yw newidiadau o'r fath wedi eu rheoli fel arfer oherwydd iddynt gael eu hystyried yn 'Ddatblygiadau a Ganiateir' o dan Orchymyn Cynllunio (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

O ganlyniad i Gyfarwyddyd Erthygl 4(2), mae rheoliadau ychwanegol yn weithredol, ac o'r herwydd mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr addasiadau canlynol:

- Cynyddu maint tŷ annedd gan gynnwys codi strwythurau neu osod arwyneb caled o fewn eu talar
- Newid defnyddiau waliau allanol mewn tai annedd gan gynnwyd drysau, ffenestri, fframiau ffenestri allanol, nwyddau dŵr glaw ac eitemau allanol eraill a phaentio'r eitemau rheiny (oni bai am baentio yn yr unlliw)
- Unrhyw newidiadau eraill i ffenestriad a drysau allanol tai annedd
- Unrhyw newidiadau eraill i'r toeau gan gynnwys simneiau mewn tai annedd (gan gynnwys darparu goleuadau to)
- Gosod antena lloeren ar dai annedd neu o fewn eu talar
- Dymchwel, neu wneud newidiadau i, waliau terfyn neu ddulliau eraill o amgylchynu, cyn belled ag y byddai'r datblygiad yn wynebu prifffordd, dyfrffordd neu fan agored

Gwneud Cais am Waith a Reolir o dan Gyfarwyddyd Erthygl 4(2)

8.7 Y cyngor gorau bob amser yw trafod eich cynigion gydag Adran Gynllunio'r Cyngor cyn cyflwyno cais. Wrth gynllunio addasiadau i'ch annedd, dylid gwneud pob ymdrech i gadw nodweddion a defnyddiau gwreiddiol. Lle bo modd, dylid trwsio nodweddion megis ffenestri gwreiddiol, a dim ond lle nad oes modd gwneud hynny mwyach y dylid eu cyfnewid a gwneud hynny am rai tebyg. Dylid annog ail osod nodweddion a gollwyd yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol fanwl. Mae'n annhebygol y bydd cyfnewid defnyddiau traddodiadol am rai modern yn dderbyniol, yn enwedig cyfnewid ffenestri coedyn traddodiadol am rai PVCu.

8.8 Ni chodir tâl am geisiadau y mae eu hangen ar sail Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) yn unig.

9 Ffynonellau Arian

Egwyddor sylfaenol gyda phob cynllun grant yw na ellir cynnig grant ar ôl dechrau ar y gwaith. Rhoddir pob grant yn ôl disgresiwn a gall y cyfraddau amrywio. Mae'n hanfodol ymgynghori'n gynnar gyda darparwyr posibl.

Cadw: Cofadeiladau Hanesyddol Cymru

Cadw yw'r brif asiantaeth gyhoeddus sy'n cynnig cymorth drwy grant ar gyfer adeiladau hanesyddol yng Nghymru. Dyma grynodeb o'r prif gynlluniau grant:

Grant Adeiladau Hanesyddol

Ar gyfer atgyweirio ac adfer defnydd hanesyddol adeiladau sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol 'hynod'. Telir grantiau fesul rhan fel arfer neu ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae canran cyfanswm y gost atgyweirio gymwys sy'n daladwy drwy gymorth grantiau yn dibynnu ar y math o adeilad, er enghraifft:

Crefyddol	50%
Ymddiriedolaethau ac Elusennau	40%
Domestig/Preifat	30%
Masnachol/Diwydiannol	30%
Cyhoeddus	30%

Efallai y bydd amodau'r grant yn ei gwneud hi'n ofynnol i arbenigwr ddylunio, nodi manylion a goruchwylio'r gwaith a chaniatáu rhywfaint o fynediad i'r cyhoedd i'r eiddo unwaith y bydd y gwaith wedi ei gwblhau. Mae'n rhaid i'r perchennog hefyd sicrhau fod yr eiddo yn cael ei gadw mewn cyflwr da a meddu ar yswiriant priodol ar gyfer yr eiddo.

Grant Ardaloedd Cadwraeth

Am waith i strwythur neu olwg allanol adeiladau hanesyddol, sy'n gwella'r Ardal Gadwraeth yn sylweddol. Telir grantiau unwaith eto fesul rhan neu ar ol gorffen y gwaith yn seiliedig ar y cyfraddau canlynol:

Crefyddol	40%
Ymddiriedolaethau ac Elusennau	30%
Domestig/Preifat	25%
Masnachol/Diwydiannol	25%
Cyhoeddus	25%

Yn debyg i'r Grant Adeiladau Hanesyddol, efallai y bydd amodau yn ei gwneud hi'n ofynnol cael arbenigwr i ddylunio, nodi manylion a goruchwylio'r gwaith. Mae'n rhaid i'r perchennog hefyd sicrhau fod yr eiddo yn cael ei gadw mewn cyflwr da a meddu ar yswiriant priodol ar gyfer yr eiddo.

Atodiad 1
Adeiladau Rhestredig

Adeilad	Gradd
Eglwys y Santes Fair	I
Tŷ Crwn	II
Deial Haul yn Eglwys y Santes Fair	II
Yr Hen Ysgol Ramadeg	II
Sied yr Hers	II
Cyn Ysgoldy'r Ysgol Ramadeg	II
Stonehurst	II
1 Elusendy	II
2 Elusendy	II
3 Elusendy	II
4 Elusendy	II
5 Elusendy	II
Spring Lodge	II
Mary's Salon	II
Tŷ Tafarn Wynnstay Arms	II
2 Stryt y Parc	II
3 Stryt y Parc	II
4 Stryt y Parc	II
5 Stryt y Parc	II
7 Stryt y Parc	II
9 Stryt y Parc	II
10 Stryt y Parc	II
12 Stryt y Parc	II
Giatiau Rhiwabon	II
Porthdy'r Parc	II
13 Stryt y Parc	II
14 Stryt y Parc	II
15 Stryt y Parc	II
16 Stryt y Parc	II
17 Stryt y Parc	II
18 Stryt y Parc	II
19 Stryt y Parc	II
21 Stryt y Parc	II
22 Stryt y Parc	II
23 Stryt y Parc	II
Eglwys Gynulleidfaol, Pont Adam	II
Gorsaf Reilffordd Rhiwabon	II

Atodiad 2
Canllaw Polisi Cadwraeth

Prif Ddeddfwriaeth	Canllawiau Polisi Cenedlaethol	Polisi Cyfreithiol
Deddf Cynllunio Gwlad A Thref 1990	Polisi Cynllunio Cymru	Cynllun Datblygu Unedig Wrecsam (Cynllun Datblygu Lleol wrthi'n cael ei baratoi 2009)
Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig Ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth	Nodyn Canllaw Cynllunio Lleol 4: Ardaloedd Cadwraeth
Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 1/98: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru	Nodyn Canllaw Cynllunio Lleol 30 Dylunio: Canllaw i Ddatblygwyr a Phenseiri wrth Ddylunio Datblygiadau Preswyl
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995	Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio	Nodyn Canllaw Cynllunio Lleol 12: Wynebau Siopau
	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg	

Atodiad 3
Rhstr o Dermau

Elusendai	Tŷ wedi ei neilltuo ar gyfer y tlodion, tloty
Carreg nadd	Carreg wedi ei thorri gydag wyneb gwastad, defnyddir ar du blaen adeilad
Bae Ar Ogwydd	Ffenestr hanner hecsagon sy'n ymestyn allan
Casment	Ffenestr lle mae'r ffenestri sy'n agor yn crogi ar fachau
Rhiniog	Rhan o strwythur sy'n cynnwys coedyn llorweddol i ffurfio rhan isaf fframwaith neu strwythur cynhaliol
Llofft olau	Rhan o wal fewnol sy'n codi uwchben y to cyfagos gyda ffenestri yn caniatáu i olau ddod i mewn
Dafad ac Oen	Math o feini copa fel dannedd
Ysgwydd	Braced addurniadol sydd ag amlinell ar dro
Meini Copa	Y rhes uchaf ar ben wal, parapet neu simnai
Corbel	Darn o goedyn, carreg neu fricsen yn ymestyn allan, neu'n hongian dros strwythur megis bwa neu falconi.
Cornis	Ymyl wedi ei mowldio, yn ymestyn allan ar hyd brig adeilad. Mae hefyd yn fowld addurniedig yn yr ongl rhwng wal a nenfwd
Dormer	Ffenestr yn ymestyn o do
Bondo	Y rhan isaf, sy'n ymestyn allan ar do slip
Ffasâd	Y tu blaen i adeilad
Ffenestri linter	Agoriad gwydrog uwchben drws
Ffenestriad	Trefn y ffenestri mewn adeilad
Terfyniad	Darn addurniadol i orffen elfen o adeiladu. Fe'i defnyddir yn gyffredin ar reiliau a thoeau
Ffris	Band addurniadol
Talcen	Darn o wal, sydd fel arfer ar siâp triongl, ar ben draw to slip
Talcennig	Talcen bychan
Gothig	Cyfnod o bensaernïaeth ganol oesol a nodweddir gan ddefnydd y bwa pig
To slip	To gyda phennau llethrog yn hytrach na rhai fertigol
Carreg ddiddos	Mowld sy'n ymestyn allan uwch ben bwa neu lintel i daflu dŵr oddi yno
Jacobeaidd	Yn dyddio o'r cyfnod neu'n dwyn nodweddion 1603-89
Glanfa	Llawr uwch yn ymestyn allan ymhellach na'r llawr islaw
Lintel	Trawst llorweddol a ddefnyddir fel gorffeniad uwchben drws neu ffenestr
Porth y fynwent	Giât bren â tho arni wrth fynedfa mynwent er mwyn derbyn arch
Postyn ffenestr	Bar fertigol sy'n rhannu ffenestr
Corff yr eglwys	Prif gorff eglwys
Pediment	Talcen trionglog rhwng goruwchadail llorweddol a tho llethrog
Perpendicwlar	Rhaniad hanesyddol Gothig Lloegr o'r cyfnod 1335-50. Daw'r enw o'r paneli rhwyllwaith talsyth
Conglfaen	Carreg wedi ei haddurno sydd wedi eu huno â chorneli adeilad
Render	Plastro arwyneb gyda phlaster, stwco neu orffeniad arall
Creigwaith	Trin cerrig yn ormodol er mwyn creu'r argraff o gryfder
Sash	Ffenestr sy'n symud ar hyd rhychau fertigol, naill ai gydag un fram yn llonydd (un crogiad) neu'r ddau'n symud (dau grogiad)
Llin-gwrs	Cwrs llorweddol o gerrig neu fowldio yn ymestyn o arwyneb y wal
Teracotta	Clai coch wedi ei danio sy'n frown a di-sglein
Rhwyllwaith	Gwaith carreg wedi ei gerfio'n gain ac fe'i gwelir fel arfer ar ffenestri gothig
Croeslath	Bar llorweddol yn rhannu ffenestr
Tuduraidd	Cyfnod yn hanes Lloegr rhwng 1485 a 1603

Cyfeiriadau

Wynnstay & The Wynns: A Volume of Varieties, Askew Roberts, 1998 Ailargraffwyd o'r 2il argraffiad yn 1885.
Remembering Ruabon, T.W. Pritchard, 2000
Wrexham Maelor Historic Settlements, RJ Silvester, M. Walters D.Wayne, Tach 1992, CPAT Adroddiad Rhif 42
A History of the Parish of Ruabon, A.N. Palmer, ailargraffwyd 1992 gan Bridge Books
The Old Parish of Ruabon in Old Picture Postcards, Ivor Edwards a T.W. Pritchard, 1990, Llyfrgell Ewropeaidd
Life in the Victorian Brickyards of Flintshire and Denbighshire, Andrew Connolly, 2003, Gwasg Carreg Gwalch

Cysylltiadau Defnyddiol

Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol - www.ihbc.org.uk
Cadw: Welsh Historic Monuments - www.cadw.wales.gov.uk
Sefydliad Brenhinol Pensaeri Prydeinig - www.riba.org
Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol - www.spab.org.uk
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig - www.rics.org.uk
Y Grŵp Sioraidd - www.georgiangroup.org.uk
Y Gymdeithas Fictoraidd - www.victorian-society.org.uk
Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys - www.cpat.org.uk
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol - www.rtpi.org.uk